

Cwmni Ynni i Gymru? Digwyddiadau Rhyngweithio â Rhanddeiliaid

Adroddiad Cryno

gan Andrew Darnton
ar gyfer Adran Datgarboneiddio ac Ynni Llywodraeth Cymru
16 Mehefin 2017

Cynnwys

1. Crynodeb	t.3	
2. Cefndir a Methodoleg	t.5	
3. Argymhelliad ar gyfer Cwmni Ynni	t.8	
4. Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru		t.18
5. Ffyrdd Ymlaen		t.19
Atodlenni:		
i) Mynychwyr a Siaradwyr	t.24	
ii) Agenda'r Digwyddiad		t.31

1. Crynodeb

Fis Mawrth, comisiynodd Llywodraeth Cymru broses ryngweithio â rhanddeiliaid ledled Cymru i ystyried rhinweddau cymharol Argymhelliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynladwyedd, sef y dylai Llywodraeth Cymru greu gwasanaethau ynni nid er elw i Gymru. Bu gofyn i'r broses ystyried opsiynau amgen, cyn cyrraedd cyfres gytbwys o argymhellion am ffyrdd ymarferol ymlaen. Roedd y broses ryngweithio cynnwys cyfres o dri gweithdy i rhanddeiliaid ledled Cymru a gynhaliwyd fis Mawrth 2017.

Yn y tri digwyddiad, bu consensws clir nad yw sefydlu cwmni cyflenwi yn fusnes priodol i Lywodraeth Cymru. Barn mwyafrif cynrychiolwyr y digwyddiadau oedd y byddai'r risgiau, yr heriau a'r tensiynau cynhenid, os digwydd i'r Llywodraeth sefydlu a chynnal cwmni cyflenwi, yn drech na manteision gwneud hynny.

Adlewyrchwyd y consensws yn erbyn cwmni cyflenwi ynni a arweinir gan y Llywodraeth yn y pleidleisiau a gynhaliwyd ar ddiwedd y tri digwyddiad. Mae'r canlyniadau'r rheiny fel a ganlyn:

	Ni ddylai (-1)	Efallai (0)	Dylai (1)	Cymedr	n
A ddylai LIC arwain datblygiad cwmni cyflenwi ynni (nid er elw) Cymru-gyfan?	38	17	17	-0.29	72

Pwysleisiodd sylwadau'r cyfranogwyr eu hamheumon eang ynghylch yr Argymhelliad, er enghraifft:

“Fy ngreddf i yw cyngori LIC yn erbyn ‘hyrddio i mewn’ i'r farchnad gyflenwi. Pe baent yn gwneud hynny, byddai angen sgiliau newydd arnynt, pocedi dwfn iawn, a llawer o lwc.” [siaradwr gwadd, Aberystwyth]

“Ni ellir bychanu'r cymhlethdod a'r risg sydd ynghlwm mewn rheoli cyflenwadau ynni.” [siaradwr gwadd, Llandudno]

“Mae'n amlwg nad yw cyflenwi'n llwybr at ynni carbon isel. I gyflawni'r hyn mae'r Llywodraeth am ei wneud, nid cwmni cyflenwi mo'r ateb.” [siaradwr gwadd, Caerdydd]

Gwelwyd mai prif fudd cwmni cyflenwi, mewn egwyddor, oedd y gallai fod yn gyfle i'r Llywodraeth greu arian o gyflenwi ynni. Yna, gellid defnyddio'r elw i gyllido ei hamcanion eraill i droi at ynni carbon isel (e.e. mynd i'r afael â thlodi tanwydd a hybu ynni cymunedol). Fodd bynnag, esboniodd cyfranogwyr arbenigol nad oes modd creu elw mawr o gyflenwi ynni, gan fod lefelau elw'n dynn iawn, a bydd angen cyllid sylweddol i ganiatáu i'r cyflenwr brynu ynni (a gwneud safiad) ar y farchnad gyfanwerthu. Hefyd, roedd amheumon ynghylch ai rôl briodol Llywodraeth oedd cymryd safle mewn marchnad yn y ffordd hon.

Fodd bynnag, cytunodd y cyfranogwyr nad oedd diffyg achos o blaid y Llywodraeth yn sefydlu cwmni cyflenwi ynni yn golygu y gallai'r Llywodraeth fforddio gwneud dim. Teimlwyd y byddai gallu'r rheiny sy'n gweithredu yn y farchnad ar hyn o bryd i gyrraedd eu hamcanion i droi at ynni carbon isel yn annhebygol iawn. Roedd cyfran olaf y digwyddiadau'n rhoi sylw penodol i rolau posib y Llywodraeth. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cywiro 'methiannau'r farchnad' e.e. gan gynnal cynlluniau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd neu hybu ynni adnewyddadwy;
- Cau'r bylchau rhwng cynhyrchu'n lleol a defnydd lleol;

- Parhau i flaenoriaethu'r lleihad yn y galw, gan gynnwys drwy well mesurau effeithlonrwydd ynni, a newid ymddygiad;
- Sicrhau bod y system ynni (a newid) yn addas i ddinasyddion Cymru, ac yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gellid mynd y tu hwnt i rai o'r amcanion hyn gyda chwmni gwasanaethau ynni Cymru-gyfan, ond teimlwyd na fyddai'n gwmni cyflenwi ynni. Yn hytrach, y consensws ymysg y cyfranogwyr oedd mai rôl y Llywodraeth yw llywodraethu, a sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn gweithio i ddwyn budd i Gymru a'i phobl. Teimlwyd bod y Llywodraeth mewn sefyllfa unigryw i gynnull rhanddeiliaid ar draws y system ynni, a rhoi cymorth iddynt i gydweithio, i helpu i gyflawni'r amcanion a osodir gan y Llywodraeth am system ynni carbon isel.

Ystyriwyd y tri digwyddiad gan lawer o'r cyfranogwyr yn enghraifft o'r modd y gallai'r Llywodraeth gynnull rhanddeiliaid ynghylch y mater hwn. Bu galw clir i'r drafodaeth a ddechreuwyd yn y digwyddiadau hyn i barhau, ac i fynd i fwy o fanylder.

2. Cefndir a Methodoleg

2.1 Cyd-destun

Fis Mawrth 2017, cafodd Andrew Darnton (AD Research & Analysis), mewn partneriaeth â Clare Sain-ley Berry o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i ddylunio proses ryngweithio â rhanddeiliaid, ei chynnal ac adrodd yn ôl arni. Dechreuwyd trafodaeth â rhanddeiliaid ynglŷn ag Argymhelliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynladwyedd y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cwmni gwasanaeth ynni nid er elw i Gymru.

Roedd gofyn i'r broses ryngweithio ystyried yr argymhelliad i Lywodraeth Cymru arwain datblygiad cwmni ynni o'r fath, ac ystyried opsiynau amgen, cyn cyrraedd barn gytbwys ar symud ymlaen yn ymarferol. Mynnwyd y dylai'r broses ganolbwyntio ar gyfres o dri gweithdy ar gyfer rhanddeiliaid ledled Cymru, i'w cynnal fis Mawrth 2017.

Bwriad y digwyddiadau rhyngweithio oedd dod â rhanddeiliaid oedd â buddiannau a rhanddeiliaid gwybodus ar draws y system ynni ynghyd, er mwyn cynrychioli buddiannau amrywiol o fewn y sector: gan gynnwys y rheolydd, cwmnïau cyflenwi mawr, a chynhyrchwyr ynni cymunedol, ymhlith eraill. Dylai'r digwyddiadau ganolbwyntio ar y wahanol farn ledled Cymru, gan y byddai angen i'r newid ynni a ragwelir gan y Llywodraeth ddatblygu asedau ac adnoddau gwahanol ardaloedd a chymunedau yng Nghymru. Yn bwysicaf oll, dylid trin yr Argymhelliad ynghylch cwmni ynni fel un modd o gyflymu'r newid i system ynni carbon isel, a dylai'r gweithdai sicrhau eu bod yn manteisio ar arbenigedd ehangach y cynrychiolwyr i ddylanwadu ar gynlluniau'r Llywodraeth i gyflymu'r newid ynni yn ogystal â sicrhau llesiant pobl Cymru – yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

2.2 Amcanion

O fewn yr amcan eang o ystyried argymhelliad y Pwyllgor, cytunwyd ar amcanion penodol ar gyfer ymarfer rhyngweithio â rhanddeiliaid, fel a ganlyn. Dylai'r broses wneud y canlynol:

- Ennyn diddordeb mewn trafodaeth wybodus ynglŷn â manteision ac ymarferoldeb cwmni ynni nid er elw Cymru-gyfan
- Ystyried yr asedau a'r gweithgareddau mewn gwahanol rannau o Gymru sy'n perthyn i gynhyrchu a chyflenwi ynni lleol, gan gynnwys systemau carbon isel
- Creu cyd-ddealltwriaeth o wahanol elfennau'r drafodaeth hon, a chryfderau a gwendidau gwahanol ffyrdd ymlaen, ar draws amryw grwpiau o rhanddeiliaid, ac o fewn y Llywodraeth
- Creu cofnod cynhwysfawr o'r drafodaeth, sy'n cynnwys argymhellion ymarferol (ynghyd ag amcangyfrif o gostau a ffigurau eraill lle bo'n bosib) i wella'r agenda, gan gynnwys rolau penodol ar gyfer Llywodraeth Cymru

Mewn ymateb i'r amcanion hyn, dyluniodd Andrew Darnton ddull o weithredu'r broses ryngweithio â rhanddeiliaid a fyddai...

- Yn annibynnol o'r Llywodraeth, ac yn ddiuedd wrth gynrychioli gwahanol farn y rhanddeiliaid;
- Yn cael ei ffurfio gan arfer cyfredol, gyda thystiolaeth i ategu'r holl argymhellion yn glir;
- Yn addas i gyd-destun Cymru ac yn gwahaniaethu yn ôl amrywiadau rhanbarthol a lleol.

2.3 Methodoleg

Trefnwyd cyfres o dri digwyddiad i randdeiliaid ledled Cymru, fel a ganlyn:

- i) Aberystwyth (Swyddfeydd Llywodraeth Cymru) Dydd Gwener 24 Mawrth
- ii) Llandudno (Venue Cymru) Dydd Mercher 29 Mawrth
- iii) Caerdydd (Jury's Inn, Plas y Parc) Dydd Iau 30 Mawrth

Gan gydwethio'n agos â Llywodraeth Cymru, dyluniodd Andrew Darnton y drefn ar gyfer pob un o'r tri digwyddiad; yna, gweithredodd fel y prif ymgynghorydd ym mhob digwyddiad, cyn adrodd yn ôl ar y canfyddiadau. Arweinodd Clare Sain-ley Berry a'i chydweithwyr yn CGGC y logisteg - gan ddelio â'r holl agweddau o ran lleoliadau, cynrychiolwyr a chyfieithu. Ceir rhagor o fanylion am y ddwy agwedd hon isod.

• **Logisteg**

Hyrwyddwyd y tri digwyddiad i grŵp amrywiol o randdeiliaid â diddordeb, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:

- Llywodraeth leol
- Grwpiau ynni cymunedol
- Mudiadau ynni'r sector preifat gan gynnwys cwmnïau cyflenwi
- Arbenigwyr ynni yn y trydydd sector
- Cymdeithasau tai
- Y rheolydd (Ofgem)
- Cwmnïau Dosbarthu
- Academia

Bwriad y digwyddiadau oedd bod yn agored i bawb â diddordeb, ac anogwyd y sawl a gafodd wahoddiad i yrru'r gwahoddiad ymlaen at eu cydweithwyr.

Cynlluniwyd y digwyddiadau i annog y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg.

Trefnwyd a hyrwyddwyd y digwyddiadau ar fyr rybudd; anfonwyd y gwahoddiadau cyntaf llai na phythefnos cyn y digwyddiad cyntaf (Aberystwyth). Serch hynny, mynychodd bron 30 o bobl y ddau ddigwyddiad cyntaf a mynychodd bron 80 y trydydd (Caerdydd). [Gweler manylion llawn enwau a rhifau'r mynychwyr yn Atodlen 1]

• **Cynllunio a Hwyluso**

Cynhaliwyd pob digwyddiad rhwng 11am a 4pm, gan ddilyn trefn gyson; rhoddir manylir yn Atodlen 2, ond dyma grynodedb ohoni:

[AM]

- Cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru ar y cynnig i gael cwmni ynni, a'i gweithgaredd ehangach ar ddatgarboneiddio ynni
- Cyfraniadau byr gan siaradwyr gwadd, gan gynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol, grwpiau ynni cymunedol, cwmnïau cyflenwi ynni, a rheolyddion

[PM]

- Trafodaeth banel gyda'r siaradwyr gwadd
- Gwaith grŵp i ddatblygu ffyrdd ymlaen, o ran yr 'argymhelliad ar gyfer gwmni ynni' a rôl Llywodraeth Cymru wrth symud ymlaen
- Casgliadau a'r camau nesaf

Bu'r drefn yn gyson yn y tri digwyddiad, er yr esblygodd ambell fanylyn (e.e. sut cafodd cwestiynau eu gofyn, pa wybodaeth ategol a ddarparwyd) wrth i'r 'archwilio' symud o le i le – cafwyd ymdeimlad bod yr hyn a ddysgwyd yn cynyddu o'r naill ddigwyddiad i'r llall, hyd at yr

un olaf yng Nghaerdydd. Yn rhannol am y rheswm hwnnw, mynychodd rhai o'r cynrychiolwyr a ddaeth i Aberystwyth neu Landudno y ddigwyddiad yng Nghaerdydd hefyd. Daeth rhai o'r siaradwyr gwadd i'r tri digwyddiad.

Mynychodd Simon Thomas AC – yr aelod lleol (Canolbarth a Gorllewin Cymru) a Llefarydd Plaid Cymru ar Ynni, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig – y digwyddiad cyntaf yn Aberystwyth a helpodd i osod cyd-destun a chefnidir Argymhelliad y Pwyllgor, cyn ateb cwestiynau gan y gynulleidfa. Ymysg y mân newidiadau i'r drefn, yn ogystal â'r ffaith y bu rhaid neilltuo lle ar gyfer 8 o siaradwyr gwadd (nid 5 fel yn flaenorol) yng Nghaerdydd, dylid nodi y rhoddwyd gwell eglurder i'r cynrychiolwyr ynghylch ffocws yr Argymhelliad (ar gwmni cyflenwi ynni, yn hytrach nag unrhyw fath o gwmni gwasanaethau ynni). Cafodd hyn ei adlewyrchu hefyd yn y bleidlais derfynol ar yr Argymhelliad, pan wahoddwyd mynychwyr y digwyddiad yng Nghaerdydd i fanylu pa fath o gwmni gwasanaethau a oedd ganddynt mewn golwg pan aethant ati i bleidleisio.

Defnyddiwyd MeetingSphere yn y tri digwyddiad, sef system ryngweithiol sy'n cipio ac yn adborthi barn y cynrychiolwyr mewn amser real. Anogwyd y cynrychiolwyr i gyflwyno cwestiynau a sylwadau mewn ymateb i bob un o'r siaradwyr, mewn amser real, gan ddefnyddio tabledi. Hefyd, o bryd i'w gilydd, gofynnwyd iddyn nhw gymryd rhan mewn ymarferion mesurol: trefnu blaenoriaethau, ac yn y pen draw, pleidleisio ar Argymhelliad y Cwmni Ynni. Roedd y rhyngwyneb yn galluogi pob cynrychiolydd i gyfrannu'n gyfartal at y broses ryngweithio (a hynny yn y naill iaith neu'r llall), ac roedd hefyd yn golygu bod modd iddynt weld sylwadau cynrychiolwyr eraill wrth i'r digwyddiad fynd yn ei flaen – ac ymateb i'r sylwadau hynny, os oeddent am wneud hynny.

Tasg olaf Andrew Darnton oedd cyflwyno adroddiadau ar y gyfres o ddigwyddiadau. Arweiniodd hwn at dri adroddiad manwl a oedd yn cynrychioli'r deunydd a gyflwynwyd gan bob siaradwr ac yn darparu sylwebaeth ar bob digwyddiad yn ei dro. Yn ategol i'r rhain mae'r adroddiad cryno hwn, sy'n darparu crynodeb o'r farn a fynegwyd yn y tri digwyddiad, ac yn dod ag awgrymiadau'r cynrychiolwyr o ran symud ymlaen ynghyd – parthed yr Argymhelliad ar gyfer Cwmni Ynni, a'r dasg ehangach o alluogi'r newid i system ynni carbon isel yng Nghymru.

3. Yr Argymhelliad ar gyfer Cwmni Ynni

1. Yr Argymhelliad

Daw'r Argymhelliad ar gyfer Cwmni Ynni Nid Er Elw i Gymru o adroddiad gan Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynladwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru: 'Dyfodol Ynni Craffach i Gymru' (Mawrth 2016). Mae'n bwysig atgynhyrchu'r Argymhelliad yn ei gyfanrwydd (dangosir y testun craidd mewn ffont **trwm**, ac fe'i hychwanegwyd yma):

Cwmni ynni dielw i Gymru [tudalen 14]

31. Mae pobl yn blino ar filiau cyfleustodau sy'n codi o hyd a diffyg dewis o ddarparwyr ynni. Mae yna opsiynau amgen i'r chwe chwmni ynni mawr sy'n dominyddu'r farchnad. Ar draws Lloegr, mae awdurdodau lleol yn sefydlu cwmnïau cyflenwi ynni nid er elw. Yng Nghymru, mae gennym brofiad o gwmni cyfleustodau nid er elw llwyddiannus iawn, sef Dŵr Cymru. Mae'n bryd i ni adeiladu ar y llwyddiant hwn.

32. Clywodd y Pwyllgor sut y mae rhai awdurdodau lleol yn Lloegr, gan gynnwys Bryste a Nottingham, yn gallu targedu tloidi tanwydd drwy gyflenwi ynni i aelwydydd yn eu hardaloedd ar gyfradd ostyngol. Yn Nottingham, mae Robin Hood Energy yn cynnig tariff ar gyfer trigolion Dinas Nottingham yn unig, a gall osod cyfraddau is mewn ardaloedd lle mae tloidi tanwydd yn gyffredin. Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu rhwydweithiau gwres lleol, ac mae Cyngor Wrecsam wedi cyflawni'r cynllun ynni solar mwyaf yn y DU.

33. Mae nifer o risgiau a heriau ynghlwm â sefydlu cwmni ynni. **Credwn mai'r peth mwyaf addas i Gymru yw sefydlu cwmni gwasanaeth ynni ymbarél. O dan yr ymbarél hon, gall awdurdodau lleol, dinas-ranbarthau neu gymunedau gynnig cyflenwad ynni 'label gwyn' yn lleol.** Mae cyflenwad label gwyn yn golygu nad oes gan yr awdurdod drwydded cyflenwi, ond ei fod yn hytrach yn gweithio mewn partneriaeth â 'phartner sy'n gyflenwr' trwyddedig i gynnig prisiau lleol dan eu brand eu hunain. Mae Robin Hood Energy yn mynd ar drywydd y model hwn gyda chynghorau lleol a chymdeithasau tai eraill. **Y nod yn y pen draw i gwmni gwasanaeth ynni ni er elw o'r fath fyddai cael ei holl ynni o ffynonellau adnewyddadwy yng Nghymru.**

Y sylw cyntaf a wnaeth cynrychiolwyr ynghlwm â'r Argymhelliad oedd ei fod ychydig yn amwys. Pennawd yr argymhelliad yw "Cwmni Ynni Dielw i Gymru". Yna caiff ei ailfynegi fel "cwmni gwasanaeth ynni ymbarél". Defnyddiwyd termau'r Argymhelliad i lunio'r gyfres o ddigwyddiadau rhyngweithio, a bu rhaid ystyried y cynnig am gwmni gwasanaeth ynni'n ehangach. Fodd bynnag, mae cyd-destun yr Argymhelliad yn awgrymu bod y Pwyllgor yn cynnig cwmni a allai "gynnig cyflenwad ynni 'label gwyn' yn lleol" – hynny yw, cwmni cyflenwi ynni.

Roedd yr amwysedd hwn yn amlwg yn nigwyddiad cyntaf y gyfres o ddigwyddiadau ynghylch cwmni ynni; un deiliant oedd rhoi testun llawn yr Argymhelliad (yn union fel yr atgynhyrchwyd yma) i bob cynrychiolydd ar ffurf copi caled yn y ddau ddigwyddiad arall. Er mwyn dileu unrhyw amwysedd, erbyn diwedd y digwyddiad cyntaf, ac yn y ddau nesaf, bu'n glir i'r cynrychiolwyr, wrth iddynt ymateb i'r Argymhelliad, y dylent wneud hynny yng nghyd-destun cwmni cyflenwi ynni (â thrwydded i brynu ynni ar y farchnad gyfanwerthu, a'i werthu'n uniongyrchol i ddeiliaid tai eu hunain neu drwy bartneriaid 'label gwyn' trydydd parti).

2. Dimensiynau'r Ddadl

2.1 Dibenion Cwmni Ynni

Yn y digwyddiad cyntaf, yn Aberystwyth, pan gyflwynodd Simon Thomas AC y cynnig am Gwmni Ynni – a chyfeirio ato fel yr enw a roddwyd iddo pan ymddangosodd yn gyntaf ym manifesto Plaid Cymru, Ynni Cymru – nododd sawl diben y gallai cwmni gwasanaethau ynni ei weithredu. Roedd y rhain yn cynnwys:

Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy; datblygu gwell datrysiadau storio; gosod mwy o bŵer solar; lleihau costau ynni fesul uned; gwella effeithlonrwydd ynni; lleihau toriadau trydan neu foltedd isel; cyflwyno technolegau newydd i'r farchnad; bod yn gyflenwr label gwyn i'n hawdurdodau lleol.

Gallai'r rhestr hon o uchelgeisiau fod yn perthyn i'r amwysedd y sylwodd y cynrychiolwyr arno yn Argymhelliad y Pwyllgor. Roedd yr arbenigwyr ynni ymysg y cynrychiolwyr – er enghraifft, y siaradwyr gwadd – yn benderfynol na allai cwmni cyflenwi ynni gyflawni'r rhestr lawn hon o uchelgeisiau. Yn eu tyb nhw, yr hyn a oedd yn allweddol oedd dechrau o'r dibenion, ac yna canfod y datrysiadau – ac o bosib, y cwmni ynni – a allai fynd i'r afael â nhw.

“Yn gyntaf, gofynnwch i'ch hun beth sydd wedi torri. Beth ydych chi am ei gael gan y cwmni ynni Cymru-gyfan? Mae'r Argymhelliad ar gyfer ynni rhad, ynni o Gymru, ynni gwyrdd, a thariff i roi cymorth i bobl sy'n wynebu tlodi tanwydd. Mae'n amhosib gwneud yr holl bethau hyn. Allwch chi ddim prynu llawer o ynni'n ddrud a'i werthu'n rhad.”
[siaradwr gwadd, Llandudno]

Nid yn unig y byddai gormod o uchelgeisiau'n rhy gostus i'w fforddio, ond y farn gyffredinol oedd bod rhai o'r amcanion yn mynd yn groes i'w gilydd, nes eu bod yn anghyson.

“Sut gall y cwmni cyflenwi ynni gynnig tariffau rhatach yng Nghymru yn ogystal â chreu elw sylweddol i gyllido dyheadau uchel eu cost fel buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy?” [cynrychiolydd, Aberystwyth]

Gan y byddai rhaid i'r cwmni cyflenwi weithredu mewn marchnad gystadleuol, teimlwyd fel y byddai'n ei chael yn anodd creu elw a darparu'r adnoddau ychwanegol angenrheidiol i gefnogi amcanion mwy buddiol i gymdeithas. Hefyd, roedd rhywfaint o'r cynrychiolwyr yn gwrthwynebu'r dybiaeth yn yr Argymhelliad bod prisiau ynni'n rhy uchel, gan ddweud y dylai'r Llywodraeth geisio lleihau'r galw am ynni, nid gostwng y pris.

“Mae rhai cyrff cyhoeddus yn ceisio cyflenwi ynni rhatach, ond dwi ddim am i bobl gael ynni rhad; byddan nhw'n ei wastraffu.” [siaradwr gwadd, Llandudno]

Aeth rhai o'r cynrychiolwyr ymhellach gan awgrymu y daeth y syniad o greu cwmni ynni Cymru-gyfan cyn dadansoddi'r angen am ddatgarboneiddio'r system ynni.

“Ydy hwn yn ddatrysiad sy'n chwilio am broblem?” [cynrychiolydd, Aberystwyth]

2.2 Enghreifftiau o fannau eraill

Yn Aberystwyth, gorffennodd Simon Thomas ei restr amcanion am gwmni gwasanaeth ynni gan ddweud:

“Yn olaf, os na wnawn ni hyn, byddwn yn cael ein gadael ar ôl gan Loegr.”

Yn ogystal â chanfod enghreifftiau cyfredol o brosiectau ynni cymunedol yng Nghymru, mae Argymhelliad y Pwyllgor yn cynnwys cyfeiriad at gwmnïau cyflenwi ynni a sefydlwyd gan

gyrff llywodraeth leol yn Lloegr. Yng ngoleuni hyn, roedd cwmnïau ac ymgynghorwyr ynni a oedd yn gysylltiedig â sefydlu'r cwmnïau cyflenwi hynny ymysg y cynrychiolwyr a gafodd wahoddiad i fod yn siaradwyr gwadd – fel y gellid cyfrannu gwybodaeth fanwl at y digwyddiadau o ran sut perfformiodd y Cynghorau hyn a'u cwmnïau. Yn y pen draw, nid oedd modd i'r cwmnïau cyflenwi ynni fynychu'r digwyddiad, ac mewn rhai achosion anfonwyd cynrychiolwyr ac ymgynghorwyr a oedd yn gweithio gyda nhw i siarad ar eu rhan, ond oherwydd bod ganddynt brofiad ehangach o'r farchnad ynni, roeddent mewn sefyllfa i ddarparu'r cynrychiolwyr â gwybodaeth gynhwysfawr.

Mae 58 o gwmnïau trwyddedig cyflenwi ynni yn y DU pan ysgrifennwyd hwn. Cyfeiriwyd at nifer o'r cwmnïau cyflenwi hyn a'u cwmnïau gwreiddiol yn y sector cyhoeddus sawl tro yn ystod y trafodaethau, a defnyddiodd y cynrychiolwyr yr enghreifftiau hyn wrth roi tystiolaeth fel sail i'w barn ar y posibilrwydd o greu cwmni cyflenwi ynni Cymru-gyfan. Sylwch y dylid trin y disgrifiadau isod yn ofalus, gan eu bod yn seiliedig ar sylwadau cynrychiolwyr a siaradwyr arbenigol (a wnaed yn ystod y sesiwn lawn a thrwy MeetingSphere). Nid yw uwch reolwyr y sefydliadau eu hunain wedi cadarnhau dim o'r manylion hyn.

i) Robin Hood Energy

Cwmni cyfyngedig preifat yw Robin Hood Energy y mae Cyngor Dinas Nottingham yn berchen arno yn ei gyfanrwydd. Mae'n gweithredu ar sail nid er elw ac ni chaiff buddrannau eu dosbarthu i'r rhanddeilydd (y Cyngor). Caiff unrhyw elw a wneir ei gadw yn y cwmni i gynnal y gwasanaeth. Mae'n canolbwyntio ar fuddiannau lleol drwy dariff Nottingham, er dan delerau ei drwydded, y mae'n gweithredu'n genedlaethol hefyd. Mae Robin Hood Energy yn gweithredu ar gostau cyffredinol a lefelau elw isel iawn, ac mae angen i'r cwmni gynyddu'r nifer o gwsmeriaid er mwyn cyrraedd targedau'r cynllun busnes ac i adennill eu costau. Rhan o Gynnig Gwerthu Unigryw Robin Hood yw sefydlu partneriaethau effeithiol ag awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol eraill. Er mai cyflenwi domestig yw'r prif nod, mae gan y cwmni drwydded ar gyfer cyflenwi masnachol, ac mae hefyd wedi cofrestru i weinyddu *Feed in Tariffs* (FiTs). Rhan o'r rheswm dros greu'r cwmni yw uchelgais y Cyngor o gynnal bwrdeistref sydd â thraddodiad o gynnal ei wasanaethau ei hun. Nid yw Robin Hood wedi'i integreiddio'n fertigol (h.y. nid yw'n berchen ar ei asedau cynhyrchu a dosbarthu ei hun) ac mae ei fodel busnes yn seiliedig ar ennill cwsmeriaid yn lleol ac ar draws y DU drwy gynnig prisiau mwy cystadleuol a darparu gwell gwasanaeth cwsmeriaid na rhai o'i brif gystadleuwyr. Mae hefyd yn gwneud hyn drwy gydweithredu â chyfres o bartneriaid 'label gwyn' sydd yn eu tro'n recriwtio eu cwsmeriaid eu hunain (gan gynnwys Cyngor Dinas Leeds, Cyngor Dinas Lerpwl ac Ebico, menter tai cymdeithasol genedlaethol).

ii) Bristol Energy

Bristol Energy yw'r ail gwmni cyflenwi yn Lloegr sy'n eiddo i ALI. Mae bellach wedi dod i ben ei flwyddyn gyntaf o fasnachu, ac mae wedi denu bron 50,000 o gwsmeriaid. Fe'i sefydlwyd â £9.5m o arian trethdalwyr, ar gyfer costau sefydlu'r cwmni a chostau rhedeg cychwynnol hyd at adennill costau. Y bwriad oedd darparu ffrwd incwm i'r Cyngor, fyddai wedyn yn cael ei fuddsoddi mewn gwaith effeithlonrwydd ynni (drwy endid ar wahân o fewn y Cyngor), a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Er enghraifft, mae Bristol Energy yn cynnig cymhorthdal i gwsmeriaid bregus (er bod hyn yn gyfyngedig i 1,000 o gartrefi). Amcangyfrifir y bydd y cwmni angen 250,000 o gwsmeriaid er mwyn adennill eu costau.

iii) Our Power

Daeth Our Power i'r amlwg mewn amryw o drafodaethau; mae'n gwmni cyflenwi â thrwydded lawn sy'n gweithredu'n bennaf yn yr Alban; fe'i sefydlwyd gan bartneriaeth o gymdeithasau tai cymdeithasol. Nododd rhai o'r cynadleddwyr bod y model hwn yn haeddu cael ei ystyried.

- iv) The Greater London Authority
Mae'r GLA wedi bod yn mynd drwy broses o wneud cais am 'drwydded ysgafn' gan Ofgem ers 2009. Is-drwydded gyflenwi yw hon sy'n caniatáu i'r deilydd werthu ynni'n uniongyrchol i'r cwsmer drwy weithio gyda chyflenwr trydydd parti, a chanddo drwydded lawn, sy'n cydymffurfio â chodau perthnasol y diwydiant. Cafodd hyn ei grynhoi gan un siaradwr gwadd fel "cymryd yr holl gyfrifoldebau delio â chwsmeriaid, heb unrhyw rôl delio â'r diwydiant". Er i'r GLA wneud cais am drwydded ysgafn nid ydynt wedi ei gweithredu (nid oes gan unrhyw gwmnïau gweithredol eraill drwydded ysgafn chwaith). Damcaniaeth y siaradwyr oedd y gallai hyn fod yn rhannol o achos realiti gwleidyddol yn y GLA, ac ansicrwydd o ran y ffordd orau o ymestyn eu hamcanion ar gyfer Llundain mewn system ynni gymhleth.
- v) GB Energy
Cafodd GB Energy ei grybwyll mewn sawl trafodaeth hefyd. Caiff ei adnabod fwyaf am fod y cwmni cyflenwi ynni diweddaraf i ddod i ben. Meddai un siaradwr: *"Methodd GB Energy oherwydd bod ganddynt gwsmeriaid ar dariffau cyfradd sefydlog, ond doedd dim modd iddynt dalu am yr ynni pan gododd y pris ar y farchnad gyfanwerthu. Aethant i'r wal dros nos."* [siaradwr gwadd, Llandudno]
Gan ddefnyddio'r rhyngwyneb MeetingSphere, ymatebodd cynrychiolydd: *"Cafodd methiant GB Energy ei ddisgrifio'n wael yn y cyfryngau. Methon nhw â sicrhau eu rôl fasnachu o gwbl, ac roedd hynny'n gambl fawr. Os byddwch chi'n gamblo ar farchnad y diwrnod canlynol ar gyfer y portffolio yn ei gyfanrwydd, yna does dim rhaid i chi ddod o hyd i'r arian, tyfu'n artiffisial gyflym (160,000 o gwsmeriaid mewn 1.5 flwyddyn) a gallwch ddweud 'gallwn ni gynnig y prisiau rhataf a chreu elw o 3% o hyd'. Ond bydd unrhyw gynnydd sydyn (annisgwyl) mewn prisiau cyfanwerthu yn andwyol i gyflenwr yn y sefyllfa hon"* [cynrychiolydd, Llandudno]

2.3 Risgiau

Cyn cyflwyno eu Hargymhelliad, mae testun Adroddiad y Pwyllgor yn sôn bod *"nifer o risgiau a heriau ynghlwm â sefydlu cwmni ynni"*. Y 'risgiau a'r heriau' hyn oedd prif destun y trafodaethau ymysg y siaradwyr gwadd a'r cynrychiolwyr. Ceir yma fraslun o'r prif risgiau a nodwyd ganddynt sydd ynghlwm â sefydlu cwmni cyflenwi ynni, gyda sylwadau'r cynrychiolwyr ger pob un – mae'r heriau'n dilyn isod.

Gellir crynhoi sefyllfa gyffredinol risgiau'r tri Digwyddiad Cwmni Ynni fel a ganlyn:

"Trychineb gwleidyddol posib pe bai'n methu." [cynrychiolydd, Caerdydd]

- **Meintiau elw**

"Mae myth yn bodoli bod arian mawr i'w wneud drwy gyflenwi ynni." [siaradwr gwadd, Llandudno]

"Does dim elw mawr yn y busnes cyflenwi." [siaradwr gwadd, Llandudno]

"Mae meintiau elw busnes cyflenwi'n dynn – ac fel hynny y dylai fod – neu fel arall bydd prisiau cwsmeriaid yn afresymol o uchel." [siaradwr gwadd, Caerdydd]

- **Graddfa**

“Mae cyflenwi ynni'n farchnad anodd mynd mewn iddi os nad oes gennych chi nifer fawr o gwsmeriaid a'ch bod wedi integreiddio'n fertigol (h.y. does dim modd i chi gynhyrchu'ch ynni'ch hun)” [siaradwr gwadd, Aberystwyth]

“Mae nifer fawr o gwsmeriaid a lefelau elw isel iawn yn hollbwysig yn y sector cyflenwi – ac mae gan Robin Hood gostau gweithredu isel iawn.” [siaradwr gwadd, Aberystwyth]

“Does gan gwmnïau bach mo'r niferoedd na'r llinellau credyd i lwyddo yn y farchnad”. [siaradwr gwadd, Llandudno]

- **Costau**

“Mae'n dibynnu ar y faint y cwmni. Hefyd marchnad newidiol ansicr, prisiau cynyddol a risg o ran rheoleiddio. Yn ogystal â chostau cychwynnol o £2m neu £3m.” [siaradwr gwadd, Caerdydd]

Dywedodd siaradwr gwadd yn y digwyddiad yng Nghaerdydd y benthycodd Cyngor Dinas Bryste £9.5m i Bristol Energy er mwyn iddo gychwyn. Yn sgil hyn, cafwyd yr ymatebion canlynol gan gynrychiolwyr:

58. *Beth fyddai'r £9.5m yma'n gallu ei gyflawni pe bai'n cael ei fuddsoddi'n uniongyrchol mewn cynhyrchu ynni ac arbedion i asedau Cyngor Bryste?*

59. *Mae ein hymchwil i sefydlu busnesau bach yn awgrymu bod y rhan fwyaf yn cychwyn ar ffracsiwn o'r gost honno.*

61. *Yes, but they're clearly not hitting their sales targets.*

63. *I ateb c59 - nid cychwyn mo diben hyn, ond cyllido twf (daw'r holl gostau recriwtio cwsmeriaid ar y dechrau) sicrhau 250,000 o gwsmeriaid a'r staff sydd eu hangen i ddelio â nhw*

60. *Mae £9.5m yn cynnwys y colledion a ddisgwyllir ar gyfer y blynyddoedd cyntaf o weithredu yn ogystal â'r costau sefydlu.*

“Pwy fydd yn talu? Bydd angen £20m fel cronfa barod i roi syniad i chi o'r raddfa.” [siaradwr gwadd, Llandudno]

- **Amserlen**

“Mae Robin Hood yn rhagweld y bydd angen o leiaf 3 blynedd i adennill y buddsoddiad gwreiddiol.” [siaradwr gwadd, Llandudno]

[ar Bristol Energy] *“64. Ac ar C61 - maen nhw ychydig yn brin o'r targed, ond nid rhyw lawer. Bydd angen 3 blynedd o gyrraedd targedau i adennill y buddsoddiad gwreiddiol.... Mae 6 mis wedi mynd, felly'n dal i wario ar gaffael cwsmeriaid.”* [cynrychiolydd, Caerdydd]

“Os mai dim ond y byrdymor sy'n bwysig i chi, ni fydd yn llwyddo. Mae'n creu ychydig iawn o referniw y gallwch chi, o leiaf i ddechrau, ei roi yn ôl i mewn.” [siaradwr gwadd, Caerdydd]

- **Costau cyfleoedd**

“Bydd hyn yn tynnu adnoddau i ffwrdd o ddatrysiadau eraill” [cynrychiolydd, Aberystwyth]

[ar Bristol Energy] *“...Yr hyn sydd o bwys yw'r amser a'r ymdrech a'r adnoddau a ddefnyddiwyd, y gellid eu defnyddio ar gyfer heriau ynni cynaliadwy eraill (neu gynhyrchu neu asedau rhwydwaith gwres).”* [cynrychiolydd, Caerdydd]

2.4 Heriau

Mae'r risgiau a nodwyd uchod yn perthyn i ansicrwydd yn y system ar y naill law, a'r angen i gymryd (h.y. prynu) lle yn y farchnad ar y llaw arall - a sicrhau bod y buddsoddiad yn talu ei ffordd. Yn ogystal â'r risgiau cynhenid hyn, mae Argymhellion y Pwyllgor yn trafod yr heriau: anawsterau ymarferol sydd ynghlwm mewn gweithredu yn y farchnad, y byddai rhaid eu datrys pe bai cwmni ynni'n mynd i fod yn llwyddiannus. Mae rhai o'r heriau ymarferol hyn yn perthyn yn benodol i fod yn gorff sector cyhoeddus mewn amgylchedd masnachol, neu maent yn cael eu dwysáu gan hyn.

- **Ymddiriedaeth**

"Mae cwmnïau cyflenwi ynni ymysg y sefydliadau yn y DU mae gan bobl y lleiaf o ymddiriedaeth ynddyn nhw" [siaradwr gwadd, Llandudno]

"Mae'r panel yn gwneud pwynt da bod pobl yn gallu ymddiried mewn Awdurdodau Lleol, ond a fyddai brand Cymreig yr un mor boblogaidd? Gellid cymharu canfyddiadau pobl o'u hawdurdod lleol eu hunain â'u canfyddiad o Lywodraeth Cymru er enghraifft. Sut fyddai'n bosib mynd i'r afael â hyn?" [cynrychiolydd, Llandudno]

[Ar fodolau trwyddedu] *"Mae penderfynu pa fecanwaith i'w ddefnyddio'n dibynnu ar beth yw'r broblem. Os ymddiriedaeth yw'r broblem, yna mae angen i chi fod y brand sy'n wynebu'r cwsmer."* [siaradwr gwadd, Caerdydd]

Mae'r sylw hwn yn tanlinellu'r pwynt, oherwydd bod Llywodraeth Cymru'n gallu dod â'u brand nhw / brand Cymru i'r bwrdd, byddant yn cael mwy o lwyddiant yn y busnes cyflenwi na'r rheiny sydd yn y sector preifat. Gyda lefel uwch o ymddiriedaeth, efallai y byddai cwsmeriaid yn fwy tueddol i newid i gwmni Cymru-gyfan, ac efallai y byddant yn talu mwy o sylw i gyngor ar effeithiolrwydd ynni gan gwmni o'r fath. Serch hynny, pe bai'r Llywodraeth yn gweithredu fel brand cyfunol, fel yr awgryma'r Pwyllgor, nid eu brand nhw fyddai'n mynd allan i gwsmeriaid, ond yn hytrach brand eu partneriaid label gwyn - byddent yn Awdurdodau Lleol, cymdeithasau tai neu fudiadau preifat. Ni ddylid disgwyl i'r Llywodraeth hyrwyddo ei chyflenwyr chwaith, gan ei bod yn debygol y byddai hynny'n torri rheolau Cymorth gan y Wladwriaeth, sef y dylid cynnig yr un lefel o gefnogaeth i bob cwmni o'r fath.

- **Newid Cwmni Cyflenwi**

Er mwyn cynyddu'r nifer o gwsmeriaid (h.y. cyrraedd graddfa gynaliadwy) mae angen i gwsmeriaid newid cyflenwyr. Felly hefyd sicrhau bod cwsmeriaid yn talu llai am ynni - sy'n rhan o'r mecanwaith y byddai cyflenwr mae'r Wladwriaeth yn berchen arno'n ei ddefnyddio i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Serch hynny, nid yw'r mwyafrif o gwsmeriaid ynni domestig yn tueddu i newid - mae ffigurau diweddaraf Ofgem a drafodwyd yn y digwyddiadau'n awgrymu bod newid ar gynnydd (yn arbennig i rai o'r cwmnïau ynni newydd, llai), ond mae'n sefyll ar 20% yn flynyddol (mae cyfran o'r rhain yn newid cwmnïau'n rheolaidd - felly nid yw'r 20% yn adlewyrchu niferoedd o un flwyddyn i'r llall).

"Rydyn ni'n ceisio ennyn diddordeb defnyddwyr, er mwyn ceisio gwneud i'r farchnad weithio. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae angen amrywiaeth o gynigion a chwsmeriaid sydd â diddordeb (er mwyn cynnal y pwysedd)." [siaradwr gwadd, Llandudno]

"Ar draws yr holl farchnad, mae diffyg hyder ymysg defnyddwyr. Mae llawer o bobl nad ydynt yn prynu'n dda, hyd yn oed gan y cyflenwyr mawr, oherwydd nad oes ganddynt hyder yn yr hyn maen nhw'n ei brynu." [siaradwr gwadd, Llandudno]

Mae'r prosiect Ynni Lleol ym Methesda'n enghraifft eglur o hyn.

"Ym Methesda, rydyn ni wedi llwyddo darbwylllo 7% o gartrefi i newid. Rydyn ni'n cynnig gostyngiad o 35% ym miliau ynni ein cwsmeriaid cyfredol. Ac mae'r ynni'n cael ei gynhyrchu'n lleol. Rydyn ni wedi bod o ddrws i ddrws hefyd. Ond mae'r broses o gael pobl i newid wedi bod yn un anodd dros ben, hyd yn oed gydag arbedion o 35%. Mae'n reddfol ym mhobl i beidio newid cyflenwr." [siaradwr gwadd, Llandudno]

- **Gallu a Sgiliau**

"Mae'n golygu cryn lawer o waith, ac mae'r tu allan i faes arbenigedd Llywodraeth Cymru." [cynrychiolydd, Llandudno]

Gwnaed y pwynt hefyd bod recriwtio'n farchnad gystadleuol; nid yn unig fyddai angen i'r Llywodraeth ddenu sgiliau newydd, byddai hefyd angen cystadlu â chyflogwyr eraill yn y sector ynni i wneud hynny (byddai hynny'n groes i ddulliau recriwtio arferol y Llywodraeth).

"Mae Bristol Energy yn cael ei redeg mewn ffordd fasnachol iawn. Mae ganddyn nhw rai pobl DDA IAWN (y rhan fwyaf ohonyn nhw wedi'u recriwtio o Good Energy!) ac maen nhw'n talu cyflogau sylweddol iddyn nhw, felly dwi'n credu eu bod nhw yn y dwylo gorau posib." [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Ynghyd â hyn, mae swyddogaethau swyddfa gefn i'w hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys cael mynediad i'r grid a gweithio gyda Mudiadau'r Rhwydwaith Dosbarthu. Caiff y rhyngweithiadau hyn eu llywodraethu gan 'godau' (wedi'u rheoleiddio gan Ofgem) - a dyma'r rhan mae newydd-ddyfodiad i'r farchnad yn ei chael fwyaf anodd." [siaradwr gwadd, Caerdydd]

"Mae trwydded i gyflenwi a'r elfen gyfreithiol 'mewn blwch' yn costio tua £100k. Mae gan y cwmnïau llai fantais o ran costau, oherwydd nad ydyn nhw'n cyfrannu at y gwahanol dollau gwyrdd a thlodi tanwydd, ond maent yn wynebu anfanteision o ran costau, gan fod sefydlu'r 'swyddfa gefn' yn costio ffortiwn." Mae amcangyfrif o £2m yn uchel, ond nid yw'n afresymol. Dechreuodd Ovo gyda £500k." [cynrychiolydd, Caerdydd]

- **Newid**

Tra bod ansicrwydd yn cynyddu'r risgiau sydd ynghlwm mewn mynd i mewn i'r farchnad gyflenwi, mae hefyd yn her ynddo'i hun. Roedd y darlun a ddaeth i'r amlwg yn sgil y Digwyddiadau Cwmni Ynni yn un o system gymhleth, sydd o hyd yn newid, gyda dyfodol na all neb ei ragweld. Er enghraifft, disgrifiodd siaradwr o Ofgem eu rôl nhw eu hunain fel *"rheoleiddio rhwng yr hen fyd a'r byd newydd"*. Ymddengys bod newidiadau technolegol ar lefel cartrefi yn arwain y don yma - yn nhermau cynhyrchu rhatach (solar), storio mwy effeithiol (gan gynnwys cerbydau trydan), ac yn fwy uniongyrchol, dyfodiad darparwyr gwasanaethau canoli 3^{ydd} parti fydd yn eirioli rhwng y defnyddiwr a'r cyflenwr (e.e. gydag apiau, ar gyfer newid, neu reoli 'amser defnyddio) – fel bod y cwmni cyflenwi'n diflannu o olwg y defnyddiwr.

Mae'r amserlen sydd rhaid gweithio ati er mwyn sefydlu cwmni cyflenwi llwyddiannus, fel pe bai'n mynd yn groes i raddfa a chyflymder newid yn y farchnad ynni.

"Sut olwg fydd i'r farchnad gyflenwi ymhen 5 mlynedd? Sut mae sicrhau hyblygrwydd?" [siaradwr gwadd, Llandudno]

"Gall newidiadau technolegol wneud y model hwn yn hen-ffasiwn a di-werth" [cynrychiolydd, Aberystwyth]

"O gofio rhagolygon ar gyfer cost ynni adnewyddadwy a'r effaith a gaiff hynny ar gyfanbris trydan, am ba hyd, ym marn y panel, mae model dan arweiniad y farchnad ar gyfer ynni'n ymarferol? 10 mlynedd? 20 mlynedd?" [cynrychiolydd, Caerdydd]

2.5 Egwyddorion

Yn wahanol i risgiau a heriau, mae egwyddorion yn perthyn yn benodol i'r ffaith mai corff cyhoeddus - ac yn fwy na hynny, Llywodraeth Cymru - sy'n cael ei annog i ymuno â'r farchnad gyflenwi ynni. Mae egwyddorion, yn y bon, yn densiynau sy'n deillio o fwriad y Llywodraeth i sefydlu endid masnachol i gystadlu yn y farchnad.

- **Cystadleuaeth**

"Os mai'r amcan yw darparu'r ynni rhataf, yn unol â gostyngiad o 80% mewn CO₂, sut mae hyn yn gweithio mewn marchnad 'rydd' yn erbyn cyflenwyr eraill sydd efallai heb yr amcan o leihau gollyngiadau 80%?" [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Os ydym yn ei roi i'r sector preifat, rydyn ni'n colli'r manteision... gallwch roi'r manteision i ffwrdd ond allwch chi ddim cael gwared ar y risg." [siaradwr gwadd, Aberystwyth]

"Cwestiynau ynglŷn â chystadleuaeth: beth mae cwmnïau eraill yn ei wneud - ydych chi am weld Cwmni Ynni Caerdydd yn ymladd yn erbyn Ynni Cymru am gwsmeriaid?" [siaradwr gwadd, Caerdydd]

"Os ydych chi'n cystadlu ar bris, mae rhai cwmnïau'n cynnig disgownt sydd ddim yn adlewyrchu gwir gost ynni yn y farchnad." [siaradwr gwadd, Caerdydd]

- **Diben Cyhoeddus**

"Mae Cyngor Dinas Bryste hyd yma wedi benthyca £9.5m i'r cwmni; fel trethdalwr yn ninas Bryste, dwi'n awyddus iawn bod y cwmni'n gweithio, gan fod y baich ariannol yn disgyn arnaf i a fy nghyd-dalwyr treth y cyngor!" [siaradwr gwadd, Caerdydd]

"Dwi'n cytuno y dylid gwneud gwell defnydd o arian cyhoeddus - dwi'n methu deall sut gellir cyfiawnhau hynny!" [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Beth fyddai'r £9.5m yma'n gallu ei gyflawni pe bai'n cael ei fuddsoddi'n uniongyrchol mewn cynhyrchu ynni ac arbedion i asedau Cyngor Bryste?" [cynrychiolydd, Caerdydd]

- **Didueddrwydd**

"Beth sy'n digwydd i rôl y wladwriaeth fel brocer gonest os oes ganddyn nhw fuddiannau yn y farchnad? Rydych yn ildio'r rôl bwysig honno fel brocer gonest / eiriolwr / beirniad pwerus os oes gennych chi fuddiannau mewn adeiladu eich cyfran o'r farchnad, gan wneud cystadleuwyr allan o gwmnïau oedd o'r blaen angen eich bendith gymdeithasol / wleidyddol / ddemocrataidd i weithredu. Pwy wedyn yw'r brocer gonest?" [siaradwr gwadd, Caerdydd]

- **Cenedlaethau'r Dyfodol**

"Os yw Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar gynlluniau i leddfu tloedi tanwydd (nad yw o reidrwydd yn wyrdd), ydyn nhw mewn peryg o fynd yn groes i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol?" [cynrychiolydd, Caerdydd]

3. Casgliadau

Yn y tri digwyddiad, bu consensws clir nad yw sefydlu cwmni cyflenwi yn fusnes priodol i Lywodraeth Cymru. Fel mae'r dystiolaeth uchod yn dangos, barn mwyafrif y cynrychiolwyr yn y digwyddiadau oedd y byddai'r risgiau, yr heriau a'r tensiynau cynhenid, os digwydd i'r Llywodraeth sefydlu a chynnal cwmni cyflenwi, yn drech na manteision gwneud hynny.

Mewn gwirionedd, fel mae'r dystiolaeth uchod hefyd yn ei awgrymu, prin iawn oedd y manteision a welwyd - y tu hwnt i greu incwm, ac yn ôl y siaradwyr arbenigol, dyfodol digon ansicr oedd i hynny. Dibenion mewn gwirionedd yw'r hyn sy'n ymddangos fel manteision: pe bai'r cwmni cyflenwi'n gwneud arian, gellid ail-fuddsoddi'r arian hwnnw yn yr ymdrechion i newid drosodd i system ynni gynaliadwy i bawb. Yn y cyfamser, ychydig iawn fyddai'r cwmni'n ei wneud yn uniongyrchol i wireddu'r amcanion hynny.

Roedd y cynrychiolwyr yn gytun yn hyn o beth, ac adlewyrchwyd hynny yng nghanlyniadau'r ymarferiad pleidleisio a gynhaliwyd ar ddiwedd pob digwyddiad, gan ddefnyddio meddalwedd MeetingSphere. Yn dilyn y drafodaeth banel, gofynnwyd i bob cynrychiolydd bleidleisio mewn ymateb i gwestiwn uniongyrchol ynglŷn â'r Argymhelliad ar gyfer Cwmni Ynni. Yn wir, gofynnwyd iddynt bleidleisio ddwywaith: unwaith cyn iddyn nhw ddechrau ar eu trafodaethau o amgylch y bwrdd, ac eto ar ôl y trafodaethau hynny - ar ddiwedd y digwyddiad cyfan. Roedd canlyniadau'r bleidlais derfynol - wedi'u cyfuno ar draws y tri digwyddiad - fel a ganlyn:

	Ni ddylai (-1)	Efallai (0)	Dylai (1)	Cymedr	n
A ddylai LIC arwain datblygiad cwmni cyflenwi ynni (nid er elw) Cymru-gyfan?	38	17	17	-0.29	72

Mae'r canlyniadau'n dangos bod mwyafrif y cynrychiolwyr yn gwrthwynebu Argymhellion y Pwyllgor - er ei bod yn werth nodi bod y canrannau'n amrywio o un digwyddiad i'r llall [gweler y manylion o Adroddiadau'r Digwyddiadau am y canlyniadau llawn]. Yn y digwyddiad cyntaf, yn Aberystwyth, roedd y mwyafrif o'r cynrychiolwyr a bleidleisiodd o blaid yr Argymhelliad; roedd y sefyllfa'n gwbl wahanol yn Llandudno, a gwelwyd y gwrthwynebiad hwnnw'n dwysáu yng Nghaerdydd. Gall hyn fod yn adlewyrchiad o amrywiaethau rhanbarthol mewn amgylchiadau a barn, er y bydd yr effaith hwnnw wedi cael ei lastwreiddio gan y nifer cymharol uchel o gynrychiolwyr a deithiodd i fwy nag un digwyddiad. I raddau, mae'r duedd yn ymwneud â datblygu gwell amgyffred o'r Argymhelliad dros amser, wrth i'r cynrychiolwyr a fynychodd sawl digwyddiad adlewyrchu a dysgu gyda'i gilydd. Mae hyn hefyd yn wir yn achos tîm y prosiect, gan iddyn nhw wneud mân newidiadau i rediad a chynnwys y diwrnod wrth i'r digwyddiadau ddatblygu [fel y trafodwyd yn y Rhagarweiniad]. Ymddengys bod yr amwysedd sy'n rhan anorfod o Argymhelliad y Pwyllgor am 'Gwmni Ynni Dielw i Gymru' hefyd wedi annog rhai cynrychiolwyr yn Aberystwyth i bleidleisio dros yr Argymhelliad; roedd eu sylwadau ar ddiwedd y diwrnod yn ei gwneud yn glir eu bod yn meddwl am rywbeth gwahanol i gwmni cyflenwi domestig pan fu iddyn nhw bleidleisio 'Dylai'.

Mae'r farn gref yn erbyn yr Argymhelliad, fel mae'r bleidlais derfynol yn dangos, yn adlewyrchu grym y farn negyddol a fynegwyd yn sylwadau uniongyrchol y cynrychiolwyr a'r siaradwyr gwadd yn y digwyddiad ynglŷn â'r Argymhelliad. Mae'r sylwadau hynny i'w gweld isod, yn y drefn y casglwyd nhw yn y digwyddiadau:

"Fy ngreddf i yw cynghori LIC yn erbyn 'hyrddio i mewn' i'r farchnad gyflenwi. Pe baent yn gwneud hynny, byddai angen sgiliau newydd arnynt, pocedi dwfn iawn, a llawer o lwc". [siaradwr gwadd, Aberystwyth]

"Efallai bod rôl i gwmni ynni i hwyluso cydweddu lleol; gallai hefyd annog newid ymddygiad, a symud Amser Defnyddio. Ond nid cwmni cyflenwi ynni domestig mohono." [siaradwr gwadd, Aberystwyth]

"Oes datrysiad i'r farchnad ar gael? Dydyn ni ddim yn meddwl bod angen i'r cwmni ynni fod yn gwmni cyflenwi. Mae sefydliadau eraill yn gwneud hyn eisoes. Mae'n ymwneud â hwyluso'r broses." [cynrychiolydd, Aberystwyth]

"Ni ellir gor-bwysleisio'r cymhlethdod a'r risg sydd ynghlwm mewn rheoli cyflenwadau ynni." [siaradwr gwadd, Llandudno]

"Mae'r holl son am gwmni cyflenwi ynni'n fy nychryn – byddem o'i blaid, ond mae'n golygu cryn lawer o waith caled" [cynrychiolydd, Llandudno]

"Mae sefydlu cwmni cyflenwi ynni'n un o'r pethau mwyaf di-synnwyr y gallai Llywodraeth neu gyngor ei wneud." [siaradwr gwadd, Caerdydd]

"Mae'n amlwg nad yw cyflenwi'n llwybr at ynni carbon isel. I gyflawni'r hyn mae'r Llywodraeth am ei wneud, nid cwmni cyflenwi mo'r ateb." [siaradwr gwadd, Caerdydd]

"Gallai fod yn fwy effeithiol drwy reoleiddio nag ymwneud â'r cyflenwi. Nid yw'n briodol i LC fod yn Gwmni Gwasanaethau Ynni." [cynrychiolydd, Caerdydd]

Fel mae cryn lawer o'r dystiolaeth sydd wedi'i chasglu ynghyd yma'n awgrymu, y gred gyffredinol yw na ddylai Llywodraeth Cymru geisio ymwneud â'r farchnad gyflenwi ynni. Mae hefyd yn dangos barn weddol gyson ymysg y cynadleddwyr bod rhaid i'r Llywodraeth wneud rhywbeth er mwyn cyflawni ei hamcanion ar gyfer system ynni gynaliadwy.

Mae'r hyn roedd cynrychiolwyr yn credu y dylai'r Llywodraeth ei wneud wedi'i amlinellu yn adrannau canlynol yr adroddiad hwn, ond dylem nodi yma beth yw elfennau allweddol yr achos o blaid gweithredu gan y Llywodraeth, fel y mynegwyd nhw yn y Digwyddiadau a drefnwyd i drafod y Cwmni Ynni. Yn gyntaf, mae'r asedau sydd ym meddiant y Llywodraeth, a'r cyfrifoldeb i ddefnyddio a chadw'r rhain er budd pobl Cymru:

"Beth yw'r rôl synhwyrol ar gyfer Llywodraeth Cymru mewn galluogi Cymru i wneud y gorau o'i hadnoddau naturiol er budd Cymru?" [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Heb uchelgais wleidyddol, ni fyddwn yn cyrraedd y targedau hyn. Yn y tymor byr, ni fydd y farchnad ynni ond yn creu problemau i'r amcanion hyn. Ond mae gan y Llywodraeth yr ystadau a'r asedau i wneud gwahaniaeth." [siaradwr gwadd, Aberystwyth]

Yn ogystal â chyflwyno'r achos o blaid gweithredu, mae'r sylw diwethaf yn crynhoi'r farn gyffredin nad yw gwneud dim yn opsiwn i Lywodraeth Cymru. Y peth gorau allai ddeillio o hynny fyddai oedi yn y newid i economi carbon isel.

"Rydyn ni angen ymagwedd gyson, nid dulliau gweithredu bratiog. Oni fydd y Llywodraeth yn camu i mewn, bydd y newid yn cymryd llawer mwy o amser." [siaradwr gwadd, Llandudno]

Ond yr hyn sy'n fwy tebygol efallai, o gofio'r diffyg cyfranogiad ymhlith defnyddwyr, a natur y polisi ynni sy'n cael ei osod yn San Steffan, yw na chaiff y newid fyth ei gyflawni.

"Mae strategaeth bresennol y DU yn gyrru buddsoddiad tuag at ynni gwynt ar y môr, niwclear a nwy siâl. Mae'n gyrru buddsoddwyr at brosiectau o'r fath ar raddfa eang." [siaradwr gwadd, Aberystwyth]

"Mae angen i Lywodraeth Cymru ganiatáu i'r sectorau ynni masnachol/cymunedol gael rhwydd hwynt o fewn fframwaith cefnogol, nid un sy'n cael ei benderfynu yn Llundain, un y gallwn ei rheoli'n llwyr." [cynrychiolydd, Caerdydd]

Yn hytrach na phryder syml y gallai Cymru gael ei gadael ar ôl gan ddatblygiadau yn Lloegr, mae'r achos o blaid gweithredu'n eglur; heb hyn, ni chaiff yr asedau sydd eisoes ym meddiant Cymru eu harneisio a'u defnyddio i adeiladu system ynni wahanol a mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. I rai cynrychiolwyr, gallai hynny olygu hyd yn oed bod Llywodraeth Cymru'n sefydlu cwmni gwasanaethau ynni - nid dim ond cwmni cyflenwi ynni.

4. Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

Elfen allweddol o'r Argymhelliad ar gyfer Cwmni Ynni yw'r cwestiwn ynglŷn â beth fyddai dibenion cwmni o'r fath. Codwyd y cwestiwn hwn gan amryw o gynrychiolwyr yn y digwyddiadau ymgynghorol, fel y nodwyd uchod, gan bwysleisio na allai un cwmni ynni ddiwallu'r holl ddibenion y cyfeiriwyd atynt yn Adroddiad y Pwyllgor; tasg gyntaf y Llywodraeth ddylai fod ei gwneud yn eglur beth roedden nhw am weld cwmni o'r fath yn ei wneud. Roedd y cwestiwn hefyd yn amlwg yn niwyg y gyfres o ddigwyddiadau ymgynghori, oedd â'r dasg o edrych ar rôl ehangach y Llywodraeth mewn hybu'r newid i system ynni carbon isel; gellid wedyn ystyried yr Argymhelliad ar gyfer Cwmni Ynni yn y cyd-destun hwn.

Yn sgil hyn, gofynnwyd i'r cynadleddwyr ym mhob digwyddiad i rannu eu barn ar ba rai o blith amryw o feysydd gweithredu posib ddylai'r Llywodraeth eu blaenoriaethu er mwyn hybu'r newid i system garbon isel. Rhoddwyd chwe maes gweithredu posib i'r cynadleddwyr, a gofynnwyd iddyn nhw i'w gosod mewn trefn, fel meysydd blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Roedd y canlyniadau, ar ôl eu casglu ynghyd ar draws y tri digwyddiad ('1' oedd y sgôr uchaf, sef y brif flaenoriaeth) fel a ganlyn:

Blaenoriaeth	Eitem	1	2	3	4	5	6	Cyedr	[n]
1	Trechu tlodi tanwydd	8	12	6	3	3	1	2.52	33
2	Ynni adnewyddadwy	7	7	9	4	3	2	2.84	32
3	Ynni carbon isel	7	7	7	5	4	3	3.03	33
4	Cynhyrchiant a pherchnogaeth gymunedol	2	7	5	10	5	4	3.64	33
5	Biliau rhatach i bawb	4	1	2	5	4	13	4.48	29
6	Ennyn diddordeb busnesau	0	3	1	6	11	9	4.73	30

Yn ogystal â gosod y chwe maes gweithgaredd yn eu trefn, gofynnwyd i'r cynrychiolwyr ychwanegu meysydd 'Eraill' ar gyfer gweithredu, gan ddefnyddio'r teclyn MeetingSphere. Y tri maes 'Arall' a osodwyd uchaf ar y rhestr oedd:

- i) Cynladwyedd / Ynni Cynaliadwy
- ii) Galw / Rheoli'r Galw
- iii) Yr Economi Leol

Ym mhob un o'r digwyddiadau hyn, defnyddiwyd yr ymarferiad blaenoriaethu i benderfynu ar y themâu ar gyfer cyfres o drafodaethau o amgylch y bwrdd, mewn grwpiau bach. Trefnwyd 4 neu 5 o fyrddau o'r fath ym mhob digwyddiad, ac aeth y cynrychiolwyr ati i drafod y thema 'flaenoriaeth' a osodwyd ar gyfer y bwrdd hwnnw. Roedd eu hawgrymiadau ar gyfer yr hyn y dylai'r Llywodraeth fod yn arwain amo ym mhob maes yn mynd gryn lawer ehangach na chwmni ynni (er bod rhai'n teimlo y gallai cwmni ynni, er na fyddai'n gwmni cyflenwi domestig, fod yn rhan o'r datrysiad yn y maes roedden nhw'n ei drafod). Rhoddir crynodeb o awgrymiadau'r cynrychiolwyr ar gyfer gweithredu gan y Llywodraeth yn yr adrannau nesaf sy'n ymdrin â ffyrdd ymlaen.

5. Ffyrdd Ymlaen

Gwnaed yr awgrymiadau isod ar gyfer rolau a gweithgareddau y dylai'r Llywodraeth ymgymryd â nhw gan gynrychiolwyr a siaradwyr, wrth iddynt fynd ati i nodi'r dibenion oedd wrth wraidd yr Argymhelliad, ac wrth ystyried ffyrdd eraill y gallai cwmni cyflenwi ynni symud y dibenion hynny ymlaen. Daeth amryw o'r awgrymiadau hyn o ganlyniad i drafodaethau'r cynrychiolwyr o amgylch y bwrdd.

Un awgrym cyffredin oedd y dylid cynnal mwy o ddigwyddiadau fel hyn i edrych ymhellach i Argymhelliad ar gyfer Cwmni Ynni [gweler y pwynt olaf isod ar 'Cwmnïau a Sgyrsiau]. Teimla'r cynrychiolwyr hyn mai dim ond drwy'r math yma o ddigwyddiadau 'gwneud synnwyr', wedi'u trefnu ar y cyd, y gellid canfod amcanion a llwybrau cyffredin ar gyfer symud tuag at system ynni carbon isel. Yn yr ystyr hwnnw, mae'r ffyrdd ymlaen a awgrymir isod yn fan cychwyn ar gyfer sbarduno sgwrs ehangach ynglŷn â newidiadau mewn ynni.

5.1 Bylchau a Chraciau

Er bod teimlad nad lle'r Llywodraeth oedd sefydlu cwmni cyflenwi ynni, roedd y rhan fwyaf yn cytuno nad oedd gwneud dim byd yn opsiwn - dim ond oherwydd na fyddai modd cyflawni amcanion cymdeithasol y Llywodraeth ar gyfer y system ynni pe bai hyn yn cael ei adael yn nwylo'r sector preifat yn unig. Gan ddilyn y trywydd hwn, aeth cynrychiolwyr ati i ddadlau mai rôl gywir y Llywodraeth oedd cywiro methiannau yn y farchnad, neu mewn geiriau eraill, llenwi bylchau lle nad oedd eraill yn y farchnad yn gweithredu er budd amcanion cymdeithasol (yn arbennig wrth fynd i'r afael â thlodi tanwydd, adferiad cymunedol ac ynni adnewyddadwy).

"Y rôl bwysicaf ar gyfer y Llywodraeth yw llenwi bylchau, cysylltu pethau mewn manau lle nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Cynnal pethau na fyddai'n digwydd yn naturiol. Er enghraifft:

- *cysylltu'r galw a'r cyflenwad yn lleol*
 - *ynni wedi'i ddatganoli a gwifrau preifat.*"
- [siaradwr gwadd, Llandudno]

"Oni fydd ymyriad - fyddai'r 'peth cywir' ddim yn digwydd." [cynrychiolwyr, Llandudno]

"Pa feysydd sy'n darparu'r buddion mwyaf, sydd ddim yn cael eu darparu'n ddigon da gan y sector preifat eisoes?" [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Pa bynnag fodel gaiff ei fabwysiadu, dyma 2 faes y dylid canolbwyntio arnynt: 1) mynd i'r afael â methiant y farchnad (e.e. nid yw cyfanbris trydan yn ddigon uchel i roi cymhelliant i gynhyrchu carbon isel, nid yw'r model cyffredin ar gyfer cyflenwi'n rhoi cymhelliant i effeithlonrwydd ynni) 2) Defnyddio strwythur menter gymdeithasol nid er elw i fasnachu mewn marchnadoedd cynaliadwy (e.e. cyflenwad uniongyrchol drwy ddulliau adnewyddadwy lleol) â'r amcan o ddefnyddio unrhyw elw i gyllido tlodi tanwydd a gostwng carbon." [cynrychiolydd, Caerdydd]

5.2 Ynni Cymunedol a Chynhyrchu/Defnyddio Lleol

Canfuwyd bod un o'r bylchau allweddol (neu fethiannau'r farchnad) rhwng cynhyrchu lleol a defnyddio lleol - yn syml, anaml y gall cymunedau lleol ddefnyddio ynni wedi'i gynhyrchu'n lleol. Teimlwyd y dylid rhoi blaenoriaeth i ddod â chynhyrchu a defnyddio'n nes at ei gilydd: yn llythrennol (e.e. ar ffurf meicro-gridiau a system wifrau leol) neu'n drosiadol (e.e. drwy ddulliau newydd o becynnu a phrynu ynni cymunedol, drwy'r grid.). Serch hynny, haws dweud na gwneud, a phenderfynwyd mai anodd fyddai canfod datrysiadau i gau'r bwloch hwn. Mae hyn ynddo'i hun yn awgrymu'n gryf mai prif rôl y Llywodraeth yn hyn o beth ddylai

fod casglu ynghyd y rhanddeiliaid perthnasol er mwyn canfod datrysiadau ymarferol, gan eu hamrywio yn ôl y lleoliad.

"Cydweddu'r galw lleol â'r cyflenwad, gan ddod â nhw'n nes at ei gilydd. Byddai hyn yn dda i'r Cwmnïau Dosbarthu (DNOs), i'r Grid ac i gymunedau." [siaradwr gwadd, Aberystwyth]

"Datrys y cymhlethdodau sydd ynghlwm mewn galluogi cyflenwad lleol i gael ei ddefnyddio'n lleol... ac yna rhoi cymorth i fwy o ffynonellau adnewyddadwy lleol." [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Mae GTs, DNOs a'u model prisio presennol yn sicr o fod yn rhwystr i ostwng carbon / gostwng pris ynni. Mae'n dda clywed bod Ofgem yn bwriadu adolygu'r rhain." [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Y cwestiwn allweddol yw sut i osod polisi prisio sy'n adlewyrchu costau'r system ddosbarthu, ac sy'n dangos gwerth hyn i 'ynysodd ynni' sy'n ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd. Mae angen model newydd: prisio yn ôl lled-band nid faint sy'n cael ei lawrlwytho?" [siaradwr gwadd, Caerdydd]

"Peidio dim ond rhoi arian sy'n gwneud y gwahaniaeth. Yr ysbryd cymunedol a'r llesiant cysylltiedig sy'n gwneud iddo weithio. Mae llwyddiant yn arwain at lwyddiant pellach, gan annog eraill i ddatblygu cymhelliannau pellach." [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Yn hytrach na chwmmi ynni ar gyfer Cymru, ydyn ni'n symud tuag at gydnabyddiaeth y bydd blaenoriaethau lleol angen datrysiadau llawer mwy lleol?" [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Yr hyn mae'r sector ei angen yw model aml-fusnes cymunedol, nid un mecanwaith i werthu ynni iddo." [siaradwr gwadd, Caerdydd]

5.3 Datgarboneiddio, Ynni Adnewyddadwy a Gwres

Maes arall lle gallai'r Llywodraeth wrthsefyll methiannau'r farchnad fyddai rhoi cymorth i gynhyrchu ynni carbon isel a phrosiectau ynni cymunedol, gan gynnwys eu tanysgrifennu neu eu darparu â chyllido ar gyfer sefydlu. Yn y model hwn, ni fyddai Llywodraeth Cymru'n ymwneud â'r farchnad fasnachol yn uniongyrchol (fel y byddai rhaid iddi dan y model cwmni cyflenwi ynni). Yn hytrach, byddai'n cynnig cefnogaeth i'r mudiadau a chymunedau hynny oedd am wneud hynny, fel modd o hyrwyddo amcanion newid ynni'r Llywodraeth. Roedd Gwres yn rhywbeth y cyfeiriwyd ato gan amryw o gynrychiolwyr fel maes lle byddai cymorth o'r math yma'n arbennig o briodol, neu lle gallai Llywodraeth Cymru fod am sefydlu ei chwmmi ei hun. Mae hyn yng ngoleuni'r ffaith bod y Llywodraeth eisoes yn berchen ar lawer o'r asedau cynhyrchu ynni, a gellid sefydlu cwmni heb orfod sicrhau trwydded, yn wahanol i achos cwmni trydan.

"Mae cyfle yma i hybu'r ymgrych i leihau carbon drwy gynhyrchu'n lleol." [siaradwr gwadd, Llandudno]

"Efallai y gellid sefydlu corff 'nid er elw' - byddai iddo frandio cryf a byddai'n gweithredu'n bennaf fel datblygwr prosiectau ynni adnewyddadwy ac fel mecanwaith ar gyfer codi arian gan gymunedau lleol a.y.b. Gallai corff o'r fath ymgymryd â phrosiectau megis Bethesda a chysylltu cyflenwadau lleol i ddefnydd lleol, gan weithio gyda chyflenwyr trwyddedig - gyda ffocws ar reoli'r galw a 'phŵer rhatach', gan felly fynd i'r afael â thlodi tanwydd." [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Tynnu'r risg allan o'r broses ar ffurf gwarant / tanysgrifennu prosiectau... am gyfran o werth y fenter?" [cynrychiolwyr, Llandudno]

"Cronfa sy'n cylchdroi y gellid ei chreu i gynorthwyo prosiectau adnewyddadwy, i helpu gyda chymeradwyaeth, er enghraifft mewn awdurdodau lleol." [cynrychiolwyr, Llandudno]

"Gwres - fel cyfleustod heb ei reoleiddio - mae'n lle gwych i ddarpar gwmni cyfleustodau i ddysgu. Rhoi trefn ar yr agwedd weithredol mewn 'cynllun ynys fach' neu dri, yna ychwanegu 'cost rheoleiddio' gwerthu trydan/hwy yn nes ymlaen." [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Gellid defnyddio gwres fel man cychwyn sydd eto i'w reoleiddio, ac yna newid i ynni arall." [cynrychiolydd, Caerdydd]

5.4 Effeithlonrwydd a Lleihau'r Galw

Neges gyffredin a ddaeth o sgysiau'r cynrychiolwyr oedd y dylid cymryd camau i leihau'r defnydd o ynni, ac y dylid gwneud hyn yn gyntaf, cyn unrhyw weithredu i newid y cymysgedd o ynni, er enghraifft. Unwaith eto, ystyriwyd hyn i fod yn fethiant yn y farchnad, lle byddai o fudd i unrhyw sefydliad sy'n gweithredu yn y farchnad fasnachol weld y defnydd o ynni'n cynyddu - sy'n mynd yn groes i'r angen am newid i system garbon isel. Mae sawl ffurf i leihau'r galw, serch hynny (o arloesi technolegol, drwy ôl-osod cyfarpar mewn tai, i newid ymddygiad unigolion a theuluoedd). Mae'r ffaith bod cynrychiolwyr yn awyddus i flaenoriaethu gweithgareddau lleihau'r galw am ynni yn awgrymu bod hwn yn faes arall lle gellid cynnal sgysiau traws-sector.

"Mae'n hanfodol bwysig nad oes unrhyw gwmni cyflenwi yng Nghymru'n hyrwyddo'r defnydd o ynni'n anfwriadol drwy wneud ynni'n rhatach. Dylid canolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni, ochr yn ochr ag unrhyw newid yng nghostau ynni." [cynrychiolydd, Llandudno]

"Problemau ag ôl-osod - eisoes yn ddiwydiant sydd â phroblemau o ran ymddiriedaeth oherwydd bod cyn lleied o arfer da, ond rhaid mynd i'r afael â hyn (h.y. effeithlonrwydd ynni / lleihau'r galw) cyn ei ddarparu. Mae dilyniant yn bwysig, ac mae angen ymagweddiad strategol ar draws pob maes yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol." [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Mae angen annog cwsmeriaid diwydiannol, masnachol a domestig i leihau eu defnydd o ynni gan ddefnyddio technegau lleihau galw sy'n bodoli eisoes." [cynrychiolydd, Llandudno]

"Faint o'r amcanion a gyflwynwyd yma ellid eu cyflawni drwy ychwanegu at gylch gorchwyl Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru - yn arbennig drwy helpu cwsmeriaid â'u biliau?" [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Mae cynlluniau effeithlonrwydd ynni sy'n bodoli eisoes yn weddol effeithiol; mae'n annhebygol y byddai cwmni newydd yn ychwanegu gwerth. Yn arbennig Cwmni Gwasanaethau Ynni." [cynrychiolydd, Caerdydd]

5.5 Mynd i'r Afael â Thlodi Tanwydd

Ym mhob digwyddiad, dangosodd y bleidlais mai mynd i'r afael â thlodi tanwydd yw'r maes y dylai Llywodraeth Cymru ei flaenoriaethu. Adlewyrchwyd y gefnogaeth yma yng nghryfder barn y cynrychiolwyr - roedd rhai'n credu y dylai'r Llywodraeth, fel mater o flaenoriaeth, weithredu ar ei haddewidion yn hyn o beth. Gwelwyd lefelau tlodi tanwydd fel enghraifft arall o fethiant y farchnad, ond roedd awgrymiadau'r cynrychiolwyr hefyd yn seiliedig ar bryderon ynglŷn â chyfiawnder cymdeithasol. Ystyriwyd tlodi tanwydd i fod yn fusnes craidd i'r holl Lywodraeth, nid dim ond fel mater ynni: byddai mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn allweddol mewn cyflawni addewidion parthed Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (DLICD).

"Mae'r argymhelliad ar gyfer cwmni ynni yn dipyn o ysgyfarnog... ac mae'r Llywodraeth yn gwybod hynny. Roedd gan y Llywodraeth ar un adeg uchelgais i 'roi terfyn ar dlodi tanwydd'."

Ble mae'r uchelgais honno wedi mynd? Mae'r tasglu tlodi tanwydd wedi cael ei ddiddymu, ac nid yw hyd yn oed yn un o ddangosyddion Deddf LICD." [cynrychiolydd, Llandudno]

"Yr amcan pwysicaf yw cael pobl oddi ar fesuryddion talu-ymlaen-llaw yng Nghymru." [cynrychiolydd, Llandudno]

"Mae data 'gwerthu clyfar' ymhell o fod yn ddatblygedig - hyd yn oed gan gwmnïau sydd â miliynnau o gwsmeriaid. Byddai'n cymryd amser maith i Gwmni Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru i ddal i fyny â niferoedd cwsmeriaid, a'r holl ddata perthnasol." [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Rhaid mynd i'r afael â'r tensiwn rhyng-adrannol sy'n bodoli rhwng yr adrannau tai, gofal cymdeithasol ac iechyd, ac ynni." [cynrychiolydd, Llandudno]

"Rhaid ymdrin â thlodi tanwydd fel rhan o fynd i'r afael â thlodi." [cynrychiolydd, Caerdydd]

5.6 Defnyddwyr a Dinasyddion

Roedd amryw o'r cynrychiolwyr yn teimlo bod llais a rôl y dinesydd ar goll o'r drafodaeth am newid ynni. Mae hyn i raddau'n adlewyrchu pryderon ynglŷn â chyfiawnder cymdeithasol (e.e. fel y gwelwyd wrth i bobl flaenoriaethu mynd i'r afael â thlodi tanwydd). Mae hefyd yn adlewyrchu eu canfyddiad o fethiannau eang y farchnad, lle mae cwmnïau masnachol yn tueddu i roi elw uwchlaw pobl. Ar lefel ddwysach fyth, mae sylwadau a wnaed yn tanlinellu'r gydnabyddiaeth ar ran llawer o'r cynadleddwyr bod ynni'n system gymdeithasol-dechnegol, lle mae patrymau cynhyrchu ynni ynghlwm yn yr arferion cymdeithasol sy'n rhan o fywyd bob dydd (neu hyd yn oed yn cael eu rheoli ganddynt). Byddai anwybyddu'r perchentywr (neu ddefnyddiwr-fel-dinesydd) ar y llwybr at newid i system garbon isel, yn sicrhau nid yn unig y byddai anghydraddoldeb cymdeithasol yn parhau heb ei gywiro, ond y byddai natur y system ynni carbon isel newydd ei hun yn ddiffygiol iawn. Gwnaed pwyntiau o'r fath mewn termau haniaethol (h.y. ar lefel yr holl system ynni) a hefyd gan gyfeirio at y profiad o redeg cwmnïau ynni, yn arbennig ar lefel gymunedol.

"Yn dechnegol, mae'n brosiect hawdd - y cwsmeriaid a'r rhanddeiliaid eraill yw'r her." [siaradwr gwadd, Llandudno]

"Beth bynnag gaiff ei greu, dylid ei adeiladu o amgylch angen y cwsmer a dealltwriaeth o gymhelliannau defnyddwyr." [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Mae pethau'n cael eu 'gwneud i' bobl, yn hytrach na chael eu trin fel dinasyddion â hawliau, ymdeimlad o berthyn, perthynas ag eraill a.y.b. Edrychwch ar y defnydd o fesuryddion clyfar. Dylai'r Wladwriaeth wneud y gorau o'i rôl fel brocer gonest yn hyn o beth, er enghraifft drwy addysg ar gydbwysio lleol, neu effeithlonwydd ynni - yn hytrach na chwmmnïau ynni'n trin pobl dim ond fel cwsmeriaid." [siaradwr gwadd, Caerdydd]

5.7 Arwain a Chynnull

Un o'r swyddogaethau allweddol a briodolwyd i'r Llywodraeth gan gynrychiolwyr o bob sector oedd yr angen i ddarparu arweinyddiaeth. I rai, golyga hyn osod canllawiau eglur ar ba fath o ddatblygiadau fyddai'n cael eu cymeradwyo a'u cefnogi; i eraill golyga dod â sawl carfan at ei gilydd o amgylch cyfeiriad penodol, wedi'i ddiffinio'n dda (er enghraifft 'llwybr ynni'). Mae'n bwysig nodi bod cynrychiolwyr o'r sector ehangach yn cytuno â'r rheiny o'r sector cyhoeddus na all y Llywodraeth wneud popeth ac na ddylai geisio gwneud hynny. Ym mhob achos, y dasg gyntaf yw casglu ynghyd unigolion a mudiadau sydd â buddiannau yn y maes a sefydlu pwy sydd yn y sefyllfa orau i wneud beth; gydol y digwyddiadau, canfuwyd enghreifftiau o fudiadau yn y sector preifat yn ymgymryd â gwaith a fyddai'n hyrwyddo amcanion y Llywodraeth (e.e. cynorthwyo â newid ynni ymysg busnesau). Hefyd lle byddai'r sector ynni

cymunedol, neu lywodraeth leol, yn y sefyllfa orau i weithredu (yn arbennig os oedden nhw'n berchen ar asedau cynhyrchu ynni neu'n eu rheoli). Ymhlith yr holl wahanol feysydd hyn, roedd y rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru chwarae rhan ganolog mewn gosod y cyfeiriad a dod â phawb ynghyd, drwy ddefnyddio ei phwerau unigryw i gyflawni hyn. Roedd teimlad mai dyma ddylai cenhadaeth graidd Llywodraeth fod - yn wir, efallai mai dyma'r hyn mae'n ei olygu i 'lywodraethu' system gymhleth.

"Mae sefydlu cwmni ynni'n anodd - mae'n gofyn am arloesedd. Efallai y byddai'n well pe ba'r Llywodraeth ganolog yn gweithredu fel hwylusydd, a bod ar gael i sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni." [siaradwr gwadd, Aberystwyth]

"Does dim rhaid i Lywodraeth Cymru wneud popeth. Dylai ofyn i bob sefydliad sydd yn yr ystafell i ddweud beth maen nhw'n mynd i'w gyfrannu?" [siaradwr gwadd, Caerdydd]

"Dod â'r adnoddau o bob rhan o Gymru ynghyd (ddim o reidrwydd drwy gwmni) mewn rôl hwyluso." [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Dylai'r Llywodraeth ein darparu â sicrwydd er mwyn i ni wybod ble i fuddsoddi." [siaradwr gwadd, Llandudno]

5.8 Cwmnïau a Sgyrsiau

Roedd y thema olaf a gododd yn sgil sgyrsiau'r cynadleddwyr ynglŷn â rôl Llywodraeth Cymru yn y newid i ynni carbon isel yn un oedd yn ymgorffori'r holl themâu eriall a osodir allan uchod. I rai cynrychiolwyr, roedd dod â'r holl geinciau hyn ynghyd yn awgrymu, o ystyried pob elfen, y gallai cwmni gwasanaethau ynni fod yn ddull effeithiol o hyrwyddo'r newid i system ynni carbon isel. Roedd a fyddai angen ffurfio cwmni fel estyniad o'r Llywodraeth, yn gwestiwn sydd angen ymchwilio ymhellach iddo. Y pwynt allweddol a wnaed oedd, beth bynnag sy'n cael ei wneud, mae angen ei wneud mewn cydweithrediad, fel y gellir mynd i'r afael â'r blaenoriaethau uchod ar y cyd. Mae angen rhannu'r system ynni'n feysydd ar wahân, er mwyn canfod yr hyn sydd angen ei wneud ym mhob un, a'u blaenoriaethu (fel y gofynnwyd i gynrychiolwyr ei wneud yn y digwyddiadau rhyngweithio. Ond roedd cynrychiolwyr yn awyddus i danlinellu'r cyd-gysylltiadau a'r adborth rhwng gwahanol rannau o'r system; ni fydd ymagwedd fratiog yn hyrwyddo'r newid sydd ei angen (mewn enghraifft syml, gellid dad-wneud arbedion carbon drwy gynnydd yn y defnydd o ynni). Roedd rhai o'r cynrychiolwyr o'r farn bod y sector ynni'n tueddu i weithio mewn seilios; efallai bod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa unigryw i frw golwg dros yr holl system, gan felly sicrhau bod gweithredu mewn un maes yn cyfateb i weithredu mewn maes arall.

"Dylai Llywodraeth Cymru ffurfio cwmni cyflenwi sy'n gweithredu fel dull o gyflawni amcanion ehangach." [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Mae ein profiad yn mynd y tu hwnt i ddim ond cynnig o gyflenwad - mae ffyrdd eraill o fod yn gwmni." [siaradwr gwadd, Caerdydd]

"Mae angen i ni edrych ar y system yn ei chyfanrwydd - gan gynnwys gwres ac adeiladau, nid dim ond trydan a nwy." [siaradwr gwadd, Caerdydd]

"Trin ynni fel maes strategol ehangach, gydag ymagwedd gyfannol. Peidio ei gyfyngu i un maes." [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Strategaeth ynni fwy cyfannol, yn hytrach na gorddibyniaeth ar Gwmni Gwasanaethau Ynni." [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Gall Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar bryniant - Deddf LICD ar gyfer y sector cyhoeddus." [cynrychiolydd, Caerdydd]

"Defnyddio ymagwedd 'Cenedlaethau'r Dyfodol' i ddod â phopeth ynghyd. Mae angen i ni ddod allan o'n seilos - felly beth am gynnal mwy o sesiynau o'r math yma." [cynrychiolydd, Caerdydd]

Dylai rôl y Llywodraeth gynnwys casglu ynghyd, galluogi a llywio'r farchnad er mwyn ymateb i heriau dwys. Dydych chi ddim am fod yn rhan o'r broblem - dyma fydd yn digwydd os ydych chi'n mynd yn gyflenwr - rydych chi am fod yn rhan o'r datrysiad." [siaradwr gwadd, Caerdydd]

Atodlen i) Mynychwyr a Siaradwyr

Mynychodd cyfanswm o 135 o gynrychiolwyr y tri digwyddiad. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys aelodau o dîm y prosiect (uchafswm o 6 ym mhob lleoliad - yn cynnwys staff Llywodraeth Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; hefyd Andrew Darnton (AD Ymchwil a Dadansoddi) a Steve Bather (MeetingSphere)) a'r siaradwyr gwadd ar gyfer pob digwyddiad (5 yn Aberystwyth a Llandudno, 8 yng Nghaerdydd). Noder bod y cyfanswm terfynol hwn yn cynnwys rhai pobl a gyfrwyd ddwywaith, gan i sawl un o'r cynrychiolwyr (gan gynnwys tîm y prosiect, a siaradwyr gwadd) fynychu mwy nag un o'r digwyddiadau (neu y 3 ohonynt) - mae ffigurau ar wahân ar gyfer pob digwyddiad wedi'u nodi isod.

O'r nifer o gynrychiolwyr a gofrestrodd, cytunodd 134 i'w manylion gael eu rhannu. Mae enwau a manylion y cynrychiolwyr hyn yn ymddangos yn y tair rhestr isod, ynghyd ag enwau'r siaradwyr gwadd ym mhob digwyddiad.

i) **Aberystwyth** [cofrestrodd 29 o gynrychiolwyr; cytunodd 21 i rannu eu manylion]

Siaradwyr gwadd (5)

- Nicola Rylett (Amber Energy)
- Chris Blake (Community Energy Wales/Green Valleys)
- Joanne Ragdale (Good Energy)
- Michael Jenkins (Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr)
- Mark Bramah (Robin Hood Energy)

Enw	Mudiad
Amanda Biss	Egnida Limited
Glenn Bowen	Canolfan Gydweithredol Cymru Wales Co-operative Centre
Paul Burrell	Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Energy Saving Trust
Judith Cook	Oren Associates
Andrew Darnton	AD Research & Analysis
Keith Davies	Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales
Kendal Davies	Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
Prys Davies	Llywodraeth Cymru Welsh Government
Graeme Lane	Cyngor Sir Ceredigion Ceredigion County Council
Huw Lewis	Llywodraeth Cymru Welsh Government
Glyn Mountford	Re:fit Cymru
Lia Murphy	Ofgem
Grant Peisley	DEG - Datblygiadau Egni Gwledig
Jennifer Pride	Llywodraeth Cymru Welsh Government
Gareth Richards	Cyngor Sir Powys Powys County Council
Clare Sain-ley-Berry	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Simon Thomas	Cynulliad Cenedlaethol

	National Assembly Member
Gaynor Toft	Cyngor Sir Ceredigion Ceredigion County Council
Ally Wadeward	Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Energy Saving Trust
Steve Woosey	Canolfan Gyngkori ar Ynni Gogledd Cymru

ii) **Llandudno** [cofrestrodd 33 o gynrychiolwyr; cytunodd 30 i rannu eu manylion]

Siaradwyr gwadd (5)

- Andy Burgess (Ofgem)
- Joanne Ragdale (Good Energy)
- Rhys Horan (Partneriaethau Lleol)
- Keith Jones (CEW/Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)
- Mark Bramah (Robin Hood Energy)

Enw	Mudiad
Amanda Biss	Egnida Limited
Phil Brennan	APSE Energy
Judith Cook	Oren Associates
Heledd Cressey	Llywodraeth Cymru Welsh Government
Andrew Darnton	AD Research & Analysis
Dewi Llwyd Evans	Grŵp Cynefin
Ian Griffith	Llywodraeth Cymru Welsh Government
Jim Hall	Vital Energi Utilities Ltd
Danny Hirst	Utiligroup
Keith Jones	Ynni Cymunedol Cymru Community Energy Wales
Robert Jones	Cyngor Sir Ddinbych Denbighshire County Council
Leanna Jones	Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council
Crispin Jones	E.ON UK
Silas Jones	Cadwyn Clwyd
Ffion Mai Jones	Cyngor Gwynedd Gwynedd Council
John Jones	CTC PAC
Colin Keyse	Cwm Harry Land Trust
Huw Lewis	Llywodraeth Cymru Welsh Government

Enw	Mudiad
Philip Morris	Heddlu Gogledd Cymru North Wales Police
Kirsty Owen	Llywodraeth Cymru Welsh Government
Ian Pomeroy	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Conwy County Borough Council
Anna Pretious	Heddlu Gogledd Cymru North Wales Police
Jennifer Pride	Llywodraeth Cymru Welsh Government
Paula Roberts	Prifysgol Bangor / Ynni Padarn Peris
Rachel Shorney	SP Energy Networks
Sadie Smith	Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council
Stephen Stewart	SP Energy Networks
Jonathan Townend	Oren Associates
Dafydd Watts	Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Energy Saving Trust
Emma Williams	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham Wrexham County Borough Council

iii) **Caerdydd** [cofrestrodd 96 o gynrychiolwyr; cytunodd 83 i rannu eu manylion]

Siaradwyr gwadd (8)

- Pamela Taylor (Ofgem)
- Joanne Ragdale (Good Energy)
- Adam Boorman (Cernyw)
- Nicola Rylett (Amber Energy)
- Michael Jenkins (CBS Penybont ar Ogwr)
- Simon Roberts (CSE)
- Rob Proctor (CEW)
- Mark Bramah (Robin Hood Energy)

Enw	Mudiad
Muditha Abeysekera	Prifysgol Caerdydd Cardiff University
Joseph Allen	Invicta Public Affairs
Jon Arroyo	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Rhondda Cynon Taf CBC
Mari Arthur	Cynnal Cymru - Sustain Wales
Jo Atkinson	Carbon Trust
Kalpana Balakrishnam	Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales
Jenifer Baxter	Institution of Mechanical Engineers
Alex Belsham-Harris	Cyngor ar Bopeth
Heidi Beverstock	Cymdeithas Tai Taf Taff Housing Association
Amanda Biss	Egnida Limited
David Bolton	Melin
Oliver Buxton	Seren Energy Ltd
Steven Carpenter	Llywodraeth Cymru - Cymru Effeithlon Welsh Government - Resource Efficient Wales
Allison Cawley	Melin
Robert Clark	Greenfield Nordic Ltd
Judith Cook	Oren Associates
Chloe Corbyn	Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales
Marko Cosic	COHEAT Ltd

Enw	Mudiad
Jonathan Cosson	Cymru Gynnes Warm Wales
Andrew Darnton	AD Research & Analysis
Prys Davies	Llywodraeth Cymru Welsh Government
Vicky Davies	Llywodraeth Cymru Welsh Government
Catrin Davies	Plaid Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales
Nigel Elias	Llywodraeth Cymru Welsh Government
Paul Elliott	CCHA
Lee Evans	Sustainable Energy
Martin Evans	Utiligroup
Annie Faulder	MME Ltd
Nikki Fitzgerald	Llywodraeth Cymru Welsh Government
Rachael Friel	Quatro PR
Charlotte Gibson	Llywodraeth Cymru Welsh Government
Ryan Goddard	Welsh Power
Simon Griffiths	Llywodraeth Cymru Welsh Government
Benjamin Hanks	Cyngor Dinas Casnewydd Newport City Council
Gareth Harcombe	Cyngor Dinas Caerdydd City of Cardiff Council
Patrick Holcroft	Dinas a Sir Abertawe Swansea City Council
Melissa Johansson	Geode-Energy
Sue John	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent Blaenau Gwent CBC
Matthew John	Cartrefi Cymunedol Tai Calon
Alun Jones	Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru Social Investment Cymru
Shea Jones	Sefydliad Materion Cymreig Institute of Welsh Affairs
Crispin Jones	E.ON UK
Lee Jones	Cymdeithas Tai Merthyr Tudful Merthyr Tydfil Housing Association

Enw	Mudiad
Ian Knight	Prifysgol Caerdydd Cardiff University
Eleanor Knight	Llywodraeth Cymru Welsh Government
Keryl Lanfear	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Rhondda Cynon Taf CBC
Karen Lewis	Canolfan Cydweithredol Cymru Wales Co-operative Centre
Huw Lewis	Llywodraeth Cymru Welsh Government
Neil Lewis	Robert Owen Community Banking Fund
David Llewellyn	Blaengad
Ron Loveland	Llywodraeth Cymru Welsh Government
Simone Lowthe Thomas	Asiantaeth Ynni Hafren Gwy Severn Wye Energy Agency
Catrin Maby	Rickaby Thompson Associates
Judith Marquand	Prifysgol Caerdydd Cardiff University
David Marquand	Prifysgol Caerdydd Cardiff University
Richard Martin	Prifysgol Caerdydd Cardiff University
Anna McMorrin	Invicta Public Affairs
Tim Melville	Empower Community
Alex Meredith	Innogy
Nick Miller	Miller Research (UK) Ltd
Margaret Minhinnick	Cymru Gynhaliol Sustainable Wales
Glyn Mountford	Re:fit Cymru
Guto Owen	Ynni Glân
Andrew Padmore	Egnida Limited
Mark Phillips	Cartrefi Dinas Casnewydd
Mark Picton	RWE
Julian Preece	Cyngor Sir Powys Powys County Council
Oriel Price	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Powys Teaching Health Board
Jennifer Pride	Llywodraeth Cymru Welsh Government

Enw	Mudiad
Alex Rawlin	Llywodraeth Cymru Welsh Government
Andy Regan	Cyngor ar Bopeth
Simon Roberts	Canolfan Ynni Cynaliadwy
Natalie Robinson	E.ON
Neville Rookes	CLILC / WLGA
Stefan Runge	Prifysgol Caerdydd Cardiff University
Hugh Russell	Cartrefi Cymunedol Cymru Community Housing Cymru
Paul Smith	Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
Dave Stacey	Planet 3 Energy
David Thomas	Savills
Jonathan Townend	Oren Associates
Gareth Tucker	Seren Energy
Kim Wain	Planet 3 Energy
Dan Ward	Annibynnol

Atodlen ii) Agenda'r Digwyddiad

[amser]	[gweithgaredd]	[mewnbwn/allbwn]
10:30	<ul style="list-style-type: none"> Cyrraedd, lluniaeth ysgafn 	
11:00	<p>Croeso a Thorri'r lâ</p> <ul style="list-style-type: none"> Croeso [AD] Trefniadau Ymarferol a Chyfieithu [CSB] Agenda [AD] Y defnydd o dechnoleg [SB] Ymarferiad 'Y Tri Brenin' 	<ul style="list-style-type: none"> Y 3 Brenin: pa anrhegion ddaethoch chi gyda chi? Gosodwch hwn ar MeetingSphere [yn weladwy i bawb] Sut brofiad oedd y broses hon i chi? [rhowch arweiniad pellach ar ddefnyddio technoleg]
11:20	<p>Cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru [Prys Davies]</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyd-destun Polisi Ynni LIC Argymhelliad LIC ar gyfer Cwmni Ynni Gweithgaredd Ynni arall LIC (Esboniadau) 	<ul style="list-style-type: none"> Esboniadau [ar lafar] Ymatebion cychwynnol drwy'r MeetingSphere [AD/CGGC yn cymryd nodiadau]
12:00	<p>Cyfraniadau'r Siaradwyr Gwadd Rhan 1</p> <ul style="list-style-type: none"> Pamela Taylor (Ofgem) Joanne Ragdale (Good Energy) Andy Boorman (Cornwall Energy) Nicola Rylett (Amber Energy) 	<ul style="list-style-type: none"> Cwestiynau ac Adlewyrchiadau drwy'r MeetingSphere - gan y siaradwr; ar ddiwedd y gylchred [AD/CGGC yn cymryd nodiadau]
13:00	CINIO	<i>AD i gasglu ynghyd y Cwestiynau ac Adlewyrchiadau</i>
13:45	<p>Cyfraniadau'r Siaradwyr Gwadd Rhan 2</p> <ul style="list-style-type: none"> Michael Jenkins (CBS Penybont ar Ogwr) Simon Roberts (CSE) Rob Proctor (CEW) Mark Bramah (Robin Hood Energy) 	<ul style="list-style-type: none"> Cwestiynau ac Adlewyrchiadau drwy MeetingSphere - gan y siaradwr; ar ddiwedd y gylchred [AD/CGGC yn cymryd nodiadau]
14:30	<p>Trafodaeth Banel gyda'r Siaradwyr Gwadd</p> <ul style="list-style-type: none"> AD i gadeirio, gyda themâu o MeetingSphere 	<ul style="list-style-type: none"> Cwestiynau ac Adlewyrchiadau pellach drwy MeetingSphere [AD/CGGC yn cymryd nodiadau]
14:50	<p>Ymarferiad Rhyngweithredol #1</p> <p>a) Pawb ynghyd CYN y cwestiwn: A</p>	<ul style="list-style-type: none"> Pleidlais fyw drwy

	<p>ddylai Llywodraeth Cymru arwain datblygiad cwmni cyflenwi ynni (nid er elw) Cymru-gyfan? [Dylai / Na ddylai / Efallai]</p> <p>b) Pawb ynghyd ar gyfer Cwestiwn: (Gallai cwmni cyflenwi ynni Cymru-gyfan ddiwallu nifer o ddibenion). Pa un o'r dibenion hyn fydddech chi'n eu blaenoriaethu fel tasg ar gyfer LIC? [awgrymwch y canlynol: ynni carbon isel; biliau is i bawb; mynd i'r afael â thlodi tanwydd; ynni adnewyddadwy; cynhyrchu / perchenogaeth gymunedol; ennyn diddordeb busnesau; arall]</p>	<p>MeetingSphere [Peidiwch ag adrodd yn ôl cyn y canlyniad]</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pleidleisiwch i benderfynu ar nifer/themâu'r byrddau • AD yn cyhoeddi'r canlyniad, ar ffurf themâu ar gyfer trafodaeth o amgylch y 4 bwrdd • Bydd pobl wedyn yn dewis pa fwrdd i eistedd arno (ar sail yr hyn maen nhw wedi pleidleisio drosto)
15:00	<p>Trafodaeth o amgylch y bwrdd</p> <p>Cynhaliwyd 5 bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - tlodi tanwydd (2 fwrdd) - ynni adnewyddadwy - ynni carbon isel - biliau ynni rhatach <p>Aeth pob bwrdd i'r afael â 3 chwestiwn:</p> <p>i) Pam ddylai'r diben hwn fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru?</p> <p>ii) Beth yw'r manteision a'r anfanteision, a pha mor ymarferol yw hi i LC symud y flaenoriaeth hon yn ei blaen drwy gwmni ynni?</p> <p>iii) Pa ddulliau eraill sydd ar gael i LC symud y flaenoriaeth hon ymlaen - yng nghydestun cwmni ynni?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Casglwch y pwyntiau allweddol ynghyd gyda MeetingSphere, ac ar ddiwedd pob cwestiwn/adran • Mae angen rhywun i gadw trefn ar bob bwrdd a'u cadw o fewn y terfyn amser, yn ogystal â'u helpu i ddod i gasgliadau ym mhob adran
15:40	<p>Adborth o'r Byrddau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pa mor bell gyraeddodd eich bwrdd chi erbyn diwedd yr amser oedd ar gael ar gyfer y drafodaeth hon? 	<ul style="list-style-type: none"> • Llefarydd i adrodd yn ôl, gan adolygu sylwadau ar MeetingSphere • [AD/CGGC yn cymryd nodiadau]
15:50	<p>Ymarferiad Rhyngweithredol #2</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pawb ynghyd AR ÔL y cwestiwn: A ddylai Llywodraeth Cymru arwain datblygiad cwmni cyflenwi ynni (nid er elw) Cymru-gyfan? 	<ul style="list-style-type: none"> • Pleidlais fyw drwy MeetingSphere [y tro hwn, rhwch wybod iddyn nhw beth yw'r canlyniad]

	<p>[Dylai / Na ddylai / Efallai]</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ac os y DYLAU, esboniwch pa fath o gwmni cyflenwi ynni sydd gennych chi mewn golwg. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gofynnwch i'r rheiny a ddwedodd DYLAU i ysgrifennu eu hawgrymiad penodol
15:55	<p>Crynodeb</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diolch i bawb a'r Camau Nesaf 	
16:00	GORFFEN	